

**STRATEGAETH GYFFURIAU 2010
LLEIHAU'R GALW, CYFYNGU
CYFLENWADAU, ANNOG ADFERIAD**

**CEFNOGI POBL I FYW BYWYD YN RHYDD O
GYFFURIAU**

RHAGAIR GANYR YSGRIFENYDD CARTREF



Mae'r strategaeth hon yn gosod allan agwedd y Llywodraeth at fynd i'r afael â cyffuriau a dibyniaeth ar ddiodydd meddwol, dau bwnc sydd yn allweddol i niwed mewn cymdeithas, gan gynnwys troseddau, teuluoedd yn chwalu a thlodi. O'u rhoi ynghyd, maent yn peri diflastod a phoen i unigolion, yn distrywio teuluoedd ac yn tansilio cymunedau. Ni allwn ganiatáu i'r fath ddioddef barhau yn ddirwystr.

Mae lefel ein huchelgais yn uchel ac mae'n cynnwys atal pobl rhag cymryd cyffuriau yn y lle cyntaf a gweithredu yn llawdrwm iawn ar y rhai hynny sydd yn ymwneud â'r fasnach gyffuriau. Bydd cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, ym mis Mai 2010, yn ailsefydlu'r cyswllt rhwng yr heddlu a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Byddant yn atebol yn uniongyrchol i'r cyhoedd am leihau troseddau sydd

yn ymwneud â chyffuriau yn eu hardaloedd. Bydd yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol newydd yn arwain y frwydr yn erbyn troseddau cyfundrefnol ac yn cryfhau diogelwch ein ffiniau. Mae patrymau defnyddio cyffuriau yn newid hefyd, yn enwedig gyda chyflwyno'r 'legal highs' fel y'u gelwir. Byddwn yn ymateb yn fwy cyflym ac yn fwy hyblyg i unrhyw fygythiadau a niweidiau newydd sydd yn dod i'r amlwg ac yn sicrhau bod troseddwyr sydd yn cynhyrchu ac yn masnachu cyffuriau yn teimlo holl rym y gyfraith.

Gwahaniaeth sylfaenol rhwng y strategaeth hon a'r rhai a fu yn y gorffennol yw hyn – yn lle ffocysu yn bennaf ar gyfyngu'r niwed a achosir wrth gamdefnyddio cyffuriau, ein hagwedd ni fydd i fynd lawer pellach a chynnig pob cefnogaeth i bobl sydd yn dewis adferiad fel ffordd hygyrch allan o'u dibyniaeth. Dros y 4 blynedd nesaf, rydym yn benderfynol o dorri cylch dibyniaeth ar gyffuriau a diodydd meddwol a'r cyfleoedd a gollir o'u plegid. Mae unigolion yn cymryd cyffuriau oherwydd yr hyn sydd yn digwydd ym meysydd eraill eu bywydau. Mae achosion dibyniaeth ar gyffuriau a diodydd meddwol yn gymhleth ac yn bersonol. Rhaid i'r datrysiadau fod yn holistig ac wedi eu canoli o gwmpas pob unigolyn, gyda'r disgwyliad bod adferiad llawn yn bosibl ac yn ddymunol.

Mae'r strategaeth hon hefyd yn symud y grym i ardaloedd lleol. Mae'r dyddiau pan oedd Llywodraeth ganolog yn dweud wrth gymunedau a'r cyhoedd beth i'w wneud wedi hen fynd. Rydym yn gosod gweledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer ein taith yn y dyfodol, a chyfrifoldeb yr ardaloedd lleol fydd ymateb i hyn a i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau fydd yn cwrdd ag anghenion pawb yn y gymuned.

Yn ystod y broses ymgynghori, a oedd wedi ffurfio datblygiad y strategaeth hon, roedd rhai atebwyr wedi awgrymu llacio a dad-droseddoli fel ffordd o ddelio gyda phroblem cyffuriau. Nid yw'r Llywodraeth hon yn credu mai llacio a chyfreithloni yw'r ateb. Nid yw dad-droseddoli yn medru cydnabod cymhlethdod y broblem ac nid yw'n rhoi digon o sylw i'r niwed gall cyffuriau ei wneud i unigolion. Nid yw'n talu sylw i'r ffactorau risg sydd yn arwain unigolion i ddefnyddio cyffuriau, nac ychwaith y diflastod, y gost a'r cyfleoedd coll i unigolion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach sydd yn dod yn sgil dibyniaeth.

Mae'r strategaeth hon yn datgan ein huchelgais glir i leihau'r galw, i gyfyngu ar gyflenwadau a chefnogi adferiad llwyddiannus; bydd y strategaeth yn ein hymestyn ond rwyf yn hyderus y medrwn ni gyrraedd y nod. Trwy alluogi cymunedau lleol i gefnogi mwy o unigolion i ymryddhau o'u dibyniaeth a chyfrannu i gymdeithas, byddwn yn creu cymdeithas fwy a gwell i bawb

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Theresa May'.

Y Gwir Anrhydeddus Theresa May, AS
Ysgrifennydd Cartref

CYFLWYNIAD

Mae ein rhaglen glymbleidiol yn gosod allan uchelgais y Llywodraeth i bwysu'n drwm ar y cyflenwad o gyffuriau anghyfreithlon, i gyflwyno system o waharddiad dros dro ar yr hyn a elwir 'legal highs' ac i hybu adferiad defnyddwyr cyffuriau yn eu cymunedau. Mae'r strategaeth yn gosod allan sut rydym yn bwriadu cyflwyno'r ymrwymadau hyn a chodi momentwm i fynd i'r afael â cyffuriau a throseddau yn ymwneud â cyffuriau, tra'n helpu pobl i ymryddhau o'u gafael. Tra bod rhai o fanylion y diwygiadau yn cael eu datblygu gan Adrannau penodol drwy Bapurau Gwyrdd a Gwyn a deddfwriaeth, mae'r strategaeth hon yn sefydlu fframwaith ar gyfer yr holl weithgaredd fydd yn mynd i'r afael â cyffuriau ac yn darparu diwygiadau ar draws y system.

Mae'r strategaeth hon yn gosod allan agwedd wahanol, yn y bôn, i'n ffordd o fynd i'r afael â chyffuriau ac uchelgais hollol newydd i gyfyngu ar y defnydd o a dibyniaeth ar gyffuriau. Bydd yn ystyried dibyniaeth ar bob math o gyffur, gan gynnwys rhai sydd wedi eu rhagnodi a moddion y gellir ei brynu dros y cownter. Mae'n cydnabod bod dibyniaeth lwyr ar ddiodydd meddwol yn codi mathau tebyg o broblemau a bod y driniaeth a gynigir, yn aml, yr un fath. Felly, lle bo hynny yn addas, bydd y strategaeth yn ystyried, hefyd, dibyniaeth ddifrifol ar ddiodydd meddwol. Mae'n gosod allan bod yn rhaid tynnu ynghyd y gwasanaethau a gynigir yn y gymuned ac yn y carchar. Rhaid i rym ac atebolrwydd eistedd ar y lefel isaf posibl.

Gan ein bod, bob un ohonom, yn teimlo eu heffaith, mae cyffuriau o bwys i'r gymdeithas gyfan. O'r troseddau yn y gymuned leol, trwy deuluoedd sydd wedi eu rhwygo gan ddibyniaeth, i'r llygru sydd yn digwydd yn sgil troseddau rhyngwladol cyfundrefnol, mae gan gyffuriau effeithiau dwys a negyddol ar gymunedau, ar deuluoedd ac ar unigolion. Mae'r strategaeth hon yn gosod allan sut bydd y Llywodraeth yn targedu'r troseddwyr sydd yn ceisio elwa oherwydd diflastod eraill, sut y bydd yn amddiffyn pobl ifanc trwy atal defnydd o gyffuriau a sut bydd diwygiadau adferiad yn cynnig y cyfleoedd gorau i wella i'r bobl â phroblem gyffuriau a chaniatáu iddynt wneud cyfraniad cyflawn i'w cymunedau. Agwedd aml-ochrog yn unig fydd yn rhoi cyfle i'r Llywodraeth fynd i'r afael yn llwyddiannus â'r troseddu a'r niwed mae dibyniaeth ar gyffuriau ac ar ddiodydd meddwol yn achos i'n cymdeithas.

Bydd y Llywodraeth hon yn symud grym ac atebolrwydd o'r lefel leol i ymyriadau gan y wladwriaeth. Trwy gyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd (PCCs), diwygio'r GIG a chreu lechyd Cyhoeddus Lloegr (PHE), bydd y grym i weithredu'n uniongyrchol yn symud i'r lefel leol. Ar y lefel genedlaethol, bydd yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (NCA) yn adeiladu ar waith yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCA) ac yn gweithio gydag Asiantaeth Ffiniau'r DU (UKBA) i leihau argaeledd cyffuriau. Byddwn yn brwydro yn erbyn y llif rhyngwladol o gyffuriau sydd yn cyrraedd y DU, gan gydweithio gyda phartneriaid rhyngwladol i darfu ar y marchnadoedd cyflenwi cyffuriau. Anogir y cymunedau gwirfoddol a chymunedol, elusennau a mentrau cymdeithasol i'n cefnogi ac i gyfranogi.

Yn bennaf, bydd y Llywodraeth hon yn dangos yn glir bod unigolion yn atebol am eu gweithredoedd eu hunain. Byddwn yn cynyddu cyfrifoldeb unigolion i weithio gyda'r rhai hynny sydd ar gael i'w cefnogi i fynd i'r afael â ac i drechu eu dibyniaeth. Ymhlith y rhai hynny sydd yn barod i helpu ceir miloedd o bobl sydd wedi llwyddo i drechu eu dibyniaeth eu hunain ar gyffuriau a diodydd meddwol.

Caiff y gwaith hwn ei strwythuro o gwmpas tair thema:

- **Lleihau'r galw** -creu amgylchedd lle mae'r rhan helaethaf o bobl sydd erioed wedi cymryd cyffuriau yn parhau i wrthsefyll unrhyw bwysau i wneud hynny, a'i gwneud yn haws i'r rhai hynny sydd yn cymryd cyffuriau i roi'r gorau i'r arfer. Dyma'r allwedd i leihau'r costau anferth i gymdeithas, yn enwedig yr uchelgais coll a'r potensial coll ymhlith pobl ifanc sydd yn cymryd cyffuriau. Mae'r galw am gyffuriau anghyfreithlon yn y DU yn cyfrannu yn uniongyrchol i'r tywallt gwaed, y llygredd a'r ansefydlogrwydd yn y gwledydd sydd yn cyflenwi a'r gwledydd tramwy; rhaid i ni rannu'r cyfrifoldeb rhyngwladol i fynd i'r afael â hyn;

- **Cyfyngu cyflenwadau** - mae cyffuriau yn costio £15.4 biliwn i'r DU bob blwyddyn¹. Rhaid i'r DU ymddangos yn lle nad yw'n ddeniadol i fasnachwyr cyffuriau drwy ymosod ar eu helw ac ychwanegu at y risg maent yn ei gymryd; ac
- **Adeiladu adferiad yn y cymunedau** - bydd y Llywodraeth hon hon yn gweithio gyda phobl sydd eisiau cymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'u dibyniaeth ar gyffuriau a diodydd meddwol, a bydd yn cynnig llwybr allan o'u dibyniaeth trwy roi'r uchelgais o wella wrth galon popeth rydym yn ei wneud. Byddwn yn adeiladu ar y buddsoddiad enfawr rydym wedi ei wneud yn nhermau triniaeth i sicrhau bod mwy o bobl yn mynd i'r afael â'u dibyniaeth ac yn cael adferiad llwyr. Mae tua 400,000 o bobl sydd yn hawlio budd-daliadau (yn agos at 8% o hawlwyrr sydd mewn oedran gwaith) yn Lloegr yn ddibynnol ar gyffuriau neu ddiodydd meddwol ac yn costio hyd at £1.6 biliwn y flwyddyn mewn budd-daliadau². Pe gellig cefnogi'r unigolion hyn i wella ac i gyfrannu i'r gymdeithas, gallai'r newid fod yn anferthol.

Nid oes cysail i raddfa'r diwygiadau sydd yn cael eu hargymell. Rhaid i ni fod yn glir ynglŷn â sut byddir yn mesur y llwyddiant. Mae gan y strategaeth hon ddwy brif amcan:

- **Lleihau'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon a niweidiol; a**
- **Chynyddu'r niferoedd sydd yn gwella o'u dibyniaeth arnynt.**

Trwy'r amcanion hyn, byddwn yn atebol i'r cyhoedd am Strategaeth Gyffuriau sydd â chymunedau cryf a diogel yn agos at ei chalon.

Wrth gwrs, nid y DU yn unig sydd yn gorfod wynebu camddefnyddio cyffuriau. Felly, wrth i ni adeiladu ar y strategaeth hon, rydym wedi ymrwymo i barhau i adolygu tystiolaeth newydd o beth sydd yn gweithio mewn gwledydd eraill a beth fedrwn ni ei ddysgu o'r gwrsi hynny.

1 Gordon, L., Tinsley, L., Godfrey, C. and Parrott, S. (2006) The economic and social costs of Class A drug use in England and Wales, 2003/04, In Singleton, N., Murray, R. and Tinsley, L. (eds) 'Measuring different aspects of problem drug use: methodological developments.' Home Office Online Report 16/06

2 Hay, G. and Bauld, L. (2008) Population estimates of problematic drug users in England who access DWP benefits: a feasibility study. DWP Working Paper No.46. Department for Work and Pensions; and Hay, G. and Bauld, L. (forthcoming in 2010) Population estimates of alcohol misusers who access DWP benefits. DWP Working Paper No. 94. Department for Work and Pensions

BLE RYDYN NI NAWR?

Yn y gorffennol mae strategaethau cyffuriau wedi ffocysu ar y niwed a achosir gan heroin a cocên. Mae mynd i'r afael â'r niweidiau hyn yn dal yn hanfodol bwysig; ond nid yw'r patrymau o ddefnyddio cyffuriau a'r marchnadoedd trin cyffuriau anghyfreithlon wedi sefyll yn eu hunfan. Mae'r byd wedi globaleiddio. Tra bod y cynnydd mewn masnachu byd eang wedi dwyn budd, heb os, mae hefyd wedi dwyn bygythiadau newydd gan gynnwys masnach sylweddau seicoweithredol (yr hyn a elwir yn 'legal highs'), cemegau rhagsylweddion (a ddefnyddir yn aml mewn neu wrth gynhyrchu cyffuriau anghyfreithlon) a sylweddau a ddefnyddir i lygru'r cyffuriau a reolir.

Er bod peth cynnydd wedi ei wneud wrth fynd i'r afael â dibyniaeth ar gyffuriau, ni roddwyd blaenoriaeth integredig i bobl fedru trechu eu dibyniaeth ar gyffuriau neu ddiodydd meddwol. Oherwydd diffyg parhad wrth drin achosion a chynnig chefnogaeth, bu'n rhaid wrth asesu cyson, yn enwedig i unigolion oedd yn symud i mewn ac allan o'r system gyfiawnder troseddol (CJS), gyda tharfu ar driniaeth a gwariant wedi ei ffocysu ar gyrraedd targedau yn hytrach nac ar ganlyniadau. Mae llwyddiant wrth drin pobl wedi cael ei erydu gan y methiant i gael hyd i lety sefydlog neu gyflogaeth.

Mae'r defnydd o gyffuriau yn y DU yn dal yn rhy uchel. Yn ôl yr Arolwg Troseddau Prydeinig diweddaraf, yn 2009/10 roedd 8.6% oedolion wedi defnyddio cyffur anghyfreithlon yn y flwyddyn flaenorol.³ Er nad yw y rhan helaethaf o oedolion yn defnyddio cyffuriau, mae'r ffigyrau hyn yn golygu bod yn agos at 3 miliwn o bobl yn gwneud.

Amcangyfrifon o ddefnyddwyr cyffuriau anghyfreithlon, 16 – 59 oed

	Wedi eu cymryd erioed	Llynedd	Mis diwethaf
Dosbarth A			
Cocên (Cocên powdwr, crac)	2,838,000	813,000	365,000
Ecstasi	2,692,000	517,000	203,000
Rhithbeiriau (LSD, Madarch hud)	2,969,000	161,000	42,000
Cysglyddion (Heroin, Methadone)	283,000	50,000	38,000
Dosbarth A/B			
Amphetamines (Amphetamines, Methamphetamine)	3,777,000	319,000	110,000
Dosbarth B			
Canabis	9,912,000	2,152,000	1,250,000
Dosbarth B/C			
Tawelyddion	948,000	145,000	73,000
Dosbarth C			
Steroidau anabolig	226,000	50,000	19,000
Ketamine	656,000	159,000	79,000
Heb eu dosbarthu			
Nitradau amyl	3,091,000	351,000	115,000
Glud	739,000	57,000	17,000

³ Hoare, J. and Moon, D. (2010) Drug Misuse Declared: Findings from the 2009/10 British Crime Survey England and Wales. Home Office Statistical Bulletin 13/10

Ffynhonnell: Drug Misuse Declared: Arolwg Troseddau Prydain 2009/10

Yn y DU ceir ymhlith y cyfraddau uchaf trwy Ewrop o bobl ifanc sydd yn defnyddio canabis ac yn goryfed mewn pyliau⁴. Bob blwyddyn, eir â bron 13,000 o bobl ifanc i'r ysbyty oherwydd problemau yfed⁵. Cysylltir defnydd o gyffuriau a diodydd meddwol gyda llu o broblemau addysgol, iechyd neu gymdeithasol. Mae gan draean y boblogaeth o oedolion sydd yn cael triniaeth (am gyffuriau neu ddiodydd meddwol) gyfrifoldeb am blentyn⁶.

Mae bron 320,000 o ddefnyddwyr heroin a/ neu crac cocên yn Lloegr⁷ gyda tua 170,000 o'r rhai hyn yn cael triniaeth mewn unrhyw gyfnod o flwyddyn⁸. Tybir bod troseddwr sydd yn defnyddio heroin, cocên, a crac cocên yn cyflawni rhwng traean a hanner y troseddau sydd yn ymwneud â dwyn⁹.

Cafwyd peth llwyddiant yn yr ymdrechion i darfu ar fewnforio cocên, ac mae hyn wedi cyfrannu at gynydd gweladwy yn y pris cyfanwerthu i tua £50,000 y kilogram (kg)¹⁰. Law yn llaw â hyn bu gostyngiad sylweddol ym mhurdeb y cyffuriau ar y stryd gyda chynnydd mewn defnydd o sylweddau cymysgu gan y rhai sy'n trin ac yn gwerthu, gan gynnwys adchwanegion sydd yn achosi cancr ac sydd wedi eu gwahardd o'r DU.

PATRYMAU MEWN OEDRAN A DEFNYDD

Ceir newid yn y patrymau o gamddefnyddio cyffuriau. Yn ôl yr amcangyfrif diweddaraf o unigolion sydd yn defnyddio heroin yn Lloegr, bu gostyngiad bychan o 273,000 yn 2006/07 i 262,000 yn 2008/09¹¹. Mae data a gyflwynir gan rai sydd yn darparu triniaethau yn dangos bod y boblogaeth sydd yn defnyddio heroin yn bobl hŷn, gyda llai o bobl ifanc yn dod yn ddibynnol ar y cyffur. Pobl dros 40 oed yw'r gyfran uchaf o'r rhai hynny sydd yn ceisio triniaeth¹².

Mae niferoedd y rhai sydd yn wynebu problemau gyda crac cocên yn dal i fod yn uchel. At hyn, mae grwpiau o bobl na fyddai'n rhan o'r darlun stereoteip o un sy'n ddibynnol ar gyffuriau ac sy'n ceisio triniaeth, yn cynyddu. Mae'r unigolion hyn yn tueddu bod yn iau, mewn cyflogaeth ac mewn cartref sefydlog. Rhaid i ni sicrhau bod y ddarpariaeth i'r unigolion hyn wedi ei deilwria ar eu cyfer ac yn ymateb i'w hanghenion. Yn ogystal â hyn mae angen i wasanaethau ymateb i anghenion grwpiau penodol megis lleiafrifoedd ethnig a defnyddwyr Lesbaid, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol¹³.

Gwyddom fel y gall trin defnyddwyr cyffuriau fod yn effeithiol iawn wrth leihau'r niwed ehangach i'r gymuned megis lleihau'r duedd i ddwyn, ac ynghyd â mentrau fel cynlluniau cyfnewid nodwyddau, gallant leihau'r niwed a achosir gan ddibyniaeth, megis lledu heintiau a ddaw o firysau yn y gwaed, fel HIV.

Tra gall dibyniaeth ar gyffuriau effeithio ar unrhyw un, rydym yn ymwybodol mai'r rhai hynny yn ein cymdeithas gyda chefnidir o gamdriniaeth mewn plentyndod, esgeuluso, trawma neu dlodi sydd

4 Hibell, B., Guttormsson, U., Ahlstrom, S., Balakireva, O., Bjarnason, T., Kokkevi, A. and Kraus, L. (2009) The 2007 ESPAD Report. Substance Use Among Students in 35 European Countries

5 Substance Use among Students in 35 European Countries. The 2007 ESPAD Report (2009)

6 National Treatment Agency Media Release (2009) Moves to provide greater protection to children living with drug addicts

7 Hay, G., Gannon, M., Casey J., Millar, T., (2010) Estimates of the prevalence of Opiate Use and/or Crack Cocaine Use, 2008/09: Sweep 5 report

8 Department of Health and the National Treatment Agency (2010) Statistics from the National Drug Treatment Monitoring System (NDTMS) | April 2009 - 31 March 2010

9 MacDonald, Z., Tinsley, L., Collingwood, J., Jamieson, P. and Pudney, S. (2005) Measuring the harm from illegal drugs using the Drug Harm Index. Home Office Online Report 24/05

10 Hay, G., Gannon, M., Casey J., Millar, T. (2010) Estimates of the prevalence of Opiate Use and/or Crack Cocaine Use, 2008/09: Sweep 5 report. National Treatment Agency

11 Hay, G., Gannon, M., Casey J., Millar, T. (2010) Estimates of the prevalence of Opiate Use and/or Crack Cocaine Use, 2008/09: Sweep 5 report. National Treatment Agency

12 Drug treatment in 2009/10, (2010). National Treatment Agency (NTA)

13 UK Drug Policy Commission (2010) The impact of Drugs on Different Minority Groups: A Review of the UK literature. London: UKDPC

debycaf o gael eu heffeithio waethaf. Yn eu tro, mae plant y rhai hynny sydd yn ddibynol ar gyffuriau yn gorfod ymdopi gyda'r effaith ar eu bywydau eu hunain a rhoddir rhai o'r plant hyn yng ngofal y wladwriaeth.

DIODYDD MEDDWOL

Mae diodydd meddwol yn chwarae rhan bwysig ym mywyd diwylliannol y wlad hon gyda niferoedd mawrion yn cael eu cyflogi mewn cynhyrchu, mân werthu a'r diwydiant croeso. Mae tafarndai, bariau a chlybiau yn cyfrannu at fywyd y gymuned a'r teulu ac yn cyflenwi refeniw gwerthfawr i'r economi. Fodd bynnag, mae diodydd meddwol yn gynnyrch sy'n cael ei reoleiddio. Ceir rhai unigolion sydd yn ei gamddefnyddio, gan gyfrannu at droseddu ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol, salwch y gellir ei osgoi a marwolaethau cynnar.

Mae'r amcangyfrif o gost o £18 - 25 biliwn y flwyddyn oherwydd camddefnyddio diodydd meddwol yn rhychwantu mathau o salwch sydd ynghlwm wrth ddiodydd meddwol a chlefydau, troseddu, colli oriau cynhyrchu yn y gweithle a phroblemau iechyd a chymdeithasol a brofir gan y rhai hynny sydd yn camddefnyddio diodydd meddwol a'r effaith mae hyn yn ei gael ar eu teuluoed¹⁴. Yn y GIG yn unig, mae'r byrdwn ariannol a amcangyfrifir ar sail camddefnyddio diodydd meddwol (yfed yn rheolaidd ar lefelau risg sy'n cynyddu neu'n uwch) tua £2.7 biliwn¹⁵.

Awgrymir gan y dystiolaeth bod yfwr sydd yn ddibynol ar ddiodydd meddwol yn costio dwywaith gymaint i'r GIG ag yfwr eraill sydd yn camddefnyddio diodydd meddwol ac y gellid mynd i'r afael ag ymweliadau â'r ysbyty ymhlith y grŵp hwn trwy gynnig triniaeth arbenigol¹⁶.

Yn ôl amcangyfrifon mae gan 1.6 miliwn o bobl ddibyniaeth ysgafn, cymedrol neu ddifrifol ar ddiodydd meddwol¹⁷. Bydd tua traean y rhain yn wynebu ambell her sydd yn debyg i'r rhai hynny sydd yn ddibynol ar gyffuriau yn nhermau cefnogaeth i'w helpu i wella. Amcan y strategaeth hon yw cynnig triniaeth arbenigol well i'r rhai sy'n ddibynol ar ddiodydd meddwol ac a fyddai'n cael budd o'r driniaeth honno.

CAMDDEFNYDDIO DEUNYDDIAU AML-SYLWEDD

Mae camddefnyddio o ddeunyddiau aml-sylwedd yn cynyddu ymhlith y rhai sydd yn camddefnyddio cyffuriau. Yn aml, mae'r ddibyniaeth hon yn cynnwys diodydd meddwol yn ogystal â chyffuriau felly mae'n un o'r prif resymau pam y byddai'n gwneud synnwyr i ddwyn ynghyd mewn un strategaeth yr ymateb i'r ddibyniaeth ar ddiodydd meddwol a'r camddefnyddio o gyffuriau.

IECHYD MEDDWL

Ceir cysylltiad clir rhwng salwch meddwl a dibyniaeth ar gyffuriau a diodydd meddwol. Mae'r rhai hynny sydd yn dioddef salwch meddwl yn wynebu mwy o risg o gamddefnyddio sylweddau. Mae'r mwyafrif o achosion o salwch meddwl yn dechrau cyn i rywun gyrraedd oedran oedolyn¹⁸. Ac yn y cyfnod hwn mae problemau ymddygiad eraill, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, yn dechrau. Mewn pobl ifanc, mae problemau emosiynol ac ymddygiad wedi eu cysylltu yn aml gydag arbrofi, camddefnyddio a dibyniaeth¹⁹. Roedd y Papur Gwyn ar Iechyd Meddwl diweddar a bydd y Strategaeth

14 Prime Minister's Strategy Unit, (2004) Alcohol Harm Reduction Strategy for England

15 Department of Health (2008) The cost of alcohol related harm related harm to the NHS in England

16 McKenna, M., Chick, J., Buxton, M., Howlett, H., Patience, D & Ritson, B. (1996). The SECCAT Survey I. The costs and consequences of alcoholism. *Alcohol and Alcoholism*, 31, 565-576

17 McManus, S., Meltzer, H., Brugha, T., Bebbington, P., and Jenkins, R. (2009) Adult Psychiatric Morbidity in England, 2007. Results of a Household Survey. The NHS Information Centre for health and social care

18 Kessler RC, Berglund P, Demler O et al (2005) Lifetime prevalence and age-of-onset distributions of DSM-IV disorders in the national comorbidity survey replication. *Archives of General Psychiatry*, 62, 593-602 and also Kim-Cohen J et al (2003) Prior juvenile diagnoses in adults with mental disorder: developmental follow-back of a prospective longitudinal cohort. *Archives of General Psychiatry*, 60, 709-717

19 Green H, McGinnity A, Meltzer H et al (2005). Mental Health of Children and Young People in Great Britain 2004. Office for National Statistics

Iechyd Meddwl arfaethedig yn gosod gerbron y gweithredu fydd ei angen nid yn unig i atal salwch meddwl yn y lle cyntaf, ond hefyd i ymyrryd yn gynnar pan fydd yn digwydd. Byddai ymdriniaeth o'r math hwn yn lleihau'r risg o gamddefnyddio sylweddau yn y grŵp dan sylw.

CAMDDEFNYDD POBL IFANC O SYLWEDDAU

Mae defnydd pobl ifanc o gyffuriau yn broblem amlwg. Nid yw'r mwyafrif o bobl ifanc yn defnyddio cyffuriau ac mae llawer o'r rhai hynny sydd yn eu defnyddio heb fod yn ddibynnol arnynt. Ond gall camddefnyddio cyffuriau neu ddiodydd meddwol gael effaith fawr iawn ar addysg pobl ifanc, ar eu hiechyd, eu teuluoedd a'u cyfleoedd hir-dymor mewn bywyd. Mae'n galonogol deall bod y gyfradd o ddefnyddio cyffuriau ymhlith pobl ifanc wedi gostwng o ryw draean yn ystod y ddegawd ddiwethaf²⁰. Y sylweddau a ddefnyddir ganddynt amlaf yw canabis a diodydd meddwol er bod sylweddau anweddol (fel glud, nwyon neu chwistrell erosol) yn parhau i fod yn broblem, yn enwedig ymhlith y rhai iau. Bob blwyddyn mae tua 24,000 o bobl ifanc yn chwilio am gymorth arbenigol oherwydd eu camddefnydd o sylweddau, 90% oherwydd canabis, 10% oherwydd diodydd meddwol²¹. Mae'n bwysig cyflunio gwasanaethau pobl ifanc er mwyn ymateb i'r anghenion penodol hyn ac i gynnig y cymorth cywir mor gynnar â phosibl.

SYLWEDDAU NEWYDD SEICOWEITHREDOL ('LEGAL HIGHS')

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae tuedd newydd wedi ymddangos. Ceir tystiolaeth gynyddol bod pobl ifanc yn cymryd cemegau cyfreithiol newydd yn lle neu yn ogystal â chyffuriau erai²². Nid yw'r rhan fwyaf o'r sylweddau hyn wedi eu profi erioed ar gyfer defnydd gan yr hil ddynol. Gan na wyddys pa niweidiau y gallant achosi ar y pryd na'r niwed hir dymor y gallant achosi, nid yw'n amlwg eto beth yw'r risg sydd yn wynebu'r rhai sydd yn eu defnyddio.

20 Fuller, E. and Sanchez, M. (2010) Smoking, drinking and drug use among young people in England 2009. NHS Information Centre for Health and Social Care

21 National Treatment Agency (2010) Substance Misuse among Young People. The data for 2008/09

22 Advisory Council on the Misuse of Drugs (2010) Consideration of the cathinones

LLEIHOU'R GALW

Mae'r Llywodraeth yn glir nad yw'n ddigon i drin symptomau camddefnydd o gyffuriau yn unig. Er mwyn mynd i'r afael â throedd a lleihau'r niwed a'r gost i gymdeithas, rhaid lleihau'r galw am gyffuriau. Ni dylai pobl ddechrau cymryd cyffuriau a dylai'r rhai hynny sydd wedi dechrau roi'r gorau i'r arfer. O ran y rhai hynny sydd yn ddibynnol ar gyffuriau, dylid herio eu harfer o barhau i gymryd cyffuriau a dylid helpu unigolion a'u teuluoedd i wella. Bydd hyn yn meithrin agwedd holistaidd i atal a lleihau'r galw am gyffuriau a fydd yn:

- torri llwybrau dibyniaeth rhwng cenedlaethau trwy gefnogi teuluoedd bregus
- cynnig addysg a chynghor da fel bo pobl ifanc a'u rhieni yn cael gwybodaeth gredadwy er mwyn gwrthod camddefnyddio sylweddau yn llwyddiannus;
- defnyddio'r corff newydd, Iechyd Cyhoeddus Lloegr, i annog unigolion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd eu hunain;
- ymyrryd yn gynnar ymhlith pobl ifanc ac oedolion ifanc;
- gweithredu sancsiynau effeithiol ar droseddwr yn gyson er mwyn atal y defnydd o gyffuriau; a
- chefnogi pobl i wella, fel y gosodir allan isod yn yr adran 'Adeiladu adferiad mewn cymunedau'.

Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i agwedd sydd wedi ei seilio ar dystiolaeth. Rhaid felly wrth gyngor gwyddonol o'r radd flaenaf yn y maes cymhleth hwn. Dyna pam rydym yn gwerthfawrogi gwaith a chynghor annibynnol y Cyngor Ymgynghorol ar y Camddefnydd o Gyffuriau (ACMD) sydd yn defnyddio arbenigwyr ym meysydd gwyddoniaeth, meddygaeth, gorfodi'r gyfraith a pholisi cymdeithasol. Rydym wedi ymrwymo i gynnal yr arbenigedd hyn a sicrhau bod gan aelodaeth yr ACMD yr hyblygrwydd i ymateb i'r sialensiau cynyddol. Ystyriaeth fanwl o'r cyngor hwn sydd wrth galon ein gallu i gyflwyno'r strategaeth hon gan gynnwys y diwygiadau fydd eu hangen i fynd i'r afael â'r broblem o sylweddau newydd seicoweithredol ('legal highs').

Y DECHRAU GORAU POSIBL

Rhaid i'r camau atal ddechrau yn gynnar. Gall cefnogaeth ychwanegol ym mlynnyddoedd cynnar bywyd lleihau'r risg o ystod eang o broblemau. Bydd gan y GIG ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr, pan fydd wedi ei sefydlu, ran allweddol i chwarae. Er enghraifft, mae'r rhaglen Plentyn Iach wedi ei seilio ar y dystiolaeth o'r hyn sydd ei angen i gefnogi iechyd a datblygiad plentyn, gan ddechrau gyda beichiogrwydd. Bydd hyn yn chwarae rhan allweddol gan gynnwys darparu adolygiadau rheolaidd, cefnogaeth i rieni ac arweiniad ar hybu iechyd. Er mwyn sicrhau bod yn gallu cynnig y rhaglen hon i bob teulu â phlentyn ifanc, yn ogystal â chynnig help ychwanegol i'r rhai sydd ei angen, byddwn yn penodi 4,200 o ymwelwyr iechyd ychwanegol erbyn 2015.

Rhoddir cefnogaeth i deuluoedd, yn enwedig y rhai â'r anghenion mwyaf cymhleth, er mwyn rhoi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i'w plant. O 2012 - 13 bydd pob plentyn dwy oed sydd gan anfantais yn cael 15 awr yr wythnos o addysg blynnyddoedd cynnar a gofal a byddwn yn sicrhau bod yr un gefnogaeth ar gael i blant tair a phedair oed. Rhoddir pwyslais ffocws Sure Start ar ei bwrpas gwreiddiol o wella cyfleoedd plant dan anfantais, gyda pharhad yn y cyllido ariannol.

Bydd Partneriaethau Nyrs Teulu yn datblygu sgiliau rhianta mamau a thadau mewn teuluoedd sydd efallai yn fregus, trwy gefnogaeth dwys wedi ei strwythuro o ddechrau'r beichiogrwydd nes bod y plentyn yn ddwy flwydd oed²³.

23 Barnes, J., Mog, B., Meadows, P., Belsky, J., and the FNP Implementation Research Team (2009), Nurse-Family Partnership Programme, Second Year Pilot Sites, The Infancy Period. Institute for the Study of Children, Families and Social Issues, Birkbeck, University of London

Bydd rhaglen genedlaethol yn ffocysu ar helpu newid bywydau teuluoedd gyda nifer o broblemau. Gwyddom y gall pecynnau cefnogaeth sydd wedi eu teilwra a'u strwythuro o gwmpas anghenion y teulu cyfan fod yn effeithiol, gan arbed tua £49,000 y teulu yn flynyddol²⁴. Trwy'r Arolwg ar Wariant, mae cyllideb arwyddocaol wedi ei symud o'r canol i lefel leol gan alluogi partneriaid i weithio ar y cyd, gan drefnu a chydrannu eu hadnoddau i gwrdd ag anghenion lleol. Yn ogystal â hyn, byddwn yn sefydlu Cyllidebau Cymuned ar gyfer 16 ardal leol o Ebrill 2011. Bydd rhain yn cronni cyllid o ystod o Adrannau, gan alluogi ardaloedd lleol i ddarparu gwell canlyniadau i'r teuluoedd hyn. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu dosbarthu Cyllidebau Cymunedol yn genedlaethol o 2013/14.

ADDYSG A GWYBODAETH I BAWB

Mae ar bob person ifanc angen addysg o safon uchel am gyffuriau a diodydd meddwol fel bod ganddynt wybodaeth drylwyr am eu heffaith a'u niwed, a'r sgiliau a'r hyder i ddewis peidio â'u defnyddio.

Fel rhan o'u dyletswyddau bugeilio disgyblion, mae gan ysgolion swyddogaeth glir i'w chwarae wrth atal camddefnyddio cyffuriau a diodydd meddwol. Byddwn yn sicrhau bod gan staff ysgolion y wybodaeth, y cyngor a'r grym:

- I ddarparu gwybodaeth gywir am gyffuriau a diodydd meddwol trwy addysgu am gyffuriau a gwybodaeth wedi ei dargedu drwy wasanaeth FRANK;
- I fynd i'r afael ag ymddygiad sy'n creu problemau mewn ysgolion, gyda grymoedd ehangach ynghylch chwilio ac atafaelu. Byddwn yn ei gwneud yn haws i benaethiaid weithredu yn erbyn disgyblion sydd yn cael eu dal yn masnachu cyffuriau yn yr ysgol; ac
- I weithio gyda chyrrff gwirfoddol lleol megis yr heddlu ac eraill i atal camddefnyddio o gyffuriau a diodydd meddwol.

Byddwn yn cryfhau ansawdd darpariaeth amgen, gan gynnwys defnyddio arbenigedd y grwpiau cymunedol a gwirfoddol a galluogi ysgolion i ddatblygu a chyllido eu dulliau eu hunain o gwrdd ag anghenion disgyblion sydd wedi eu heithrio. Byddwn hefyd yn rhannu adnoddau dysgu a chynlluniau gwersi gydag ysgolion a chyrrff llwyddiannus ar-lein a hybu arferion da.

Caiff hyn oll ei gefnogi gan arweiniad, wedi ei adolygu a'i symleiddio, i ysgolion ar atal camddefnyddio cyffuriau a diodydd meddwol.

Bydd y premiwm i ddisgyblion yn sicrhau bod cyllido ar gyfer ysgolion yn cael ei bwysu a'i fesur er mwyn unioni anghydraddoldebau. Caiff yr ysgolion ryddid i chwilio am dulliau blaengar i gau'r bwlch yng nghyfraeddiadau disgyblion o gefndiroedd dan anfantais. Bydd gan fentrau megis Ysgolion Iach gyfraniad allweddol i'w gwneud wrth wella iechyd a lles disgyblion.

Dylai pob person ifanc fedru aros mewn addysg neu hyfforddiant nes eu bod yn 18 oed. Fel rhan o godi'r oedran cyfranogi, byddwn yn sicrhau bod y gefnogaeth ariannol ar gael i'r bobl ifanc dan yr anfantais mwyaf, gan roi iddynt y dechrau gorau ym myd oedolion a'u paratoi ar gyfer cyflogaeth neu addysg uwch.

Bydd gan golegau, prifysgolion a darparwyr addysg eraill rôl allweddol i'w chwarae wrth weithio gyda miliynau o bobl ifanc ac oedolion ifanc mewn cyfnod allweddol yn eu bywydau. Dylai myfyrwyr gael mynediad hawdd i'r cyngor a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt fel rhan o wasanaethau ehangach iechyd a lles.

Tra bod y Llywodraeth yn herio pobl i fod yn gyfrifol am eu gweithredoedd, rhaid i ni hefyd sicrhau eu bod yn ymwybodol o ganlyniadau'r gweithredoedd hynny. FRANK oedd un o'r ymgyrchoedd cyntaf gan y Llywodraeth i fabwysiadu model o ymddygiad sydd wedi ei ddefnyddio'n llwyddiannus, i rannu gwybodaeth am ddatblygiad yr ymgyrch ac fel fframwaith ar gyfer gwerthuso, felly byddwn yn parhau

²⁴ Kendall, S., Rodger, J. and Palmer, H (2010) Redesigning provision for families with multiple problems: early impact and evidence of local approaches. Research Report DFE-RR046. Department for Education

i ddefnyddio'r dull hwn. Trwy wasanaeth FRANK, medr pawb, o ba oedran bynnag, gael gwybodaeth ddibynadwy am effeithiau a niweidiau cyffuriau, gan gynnwys sylweddau newydd.

Bydd modd iddynt gael gafael ar gyngor, ar wybodaeth ac ar gefnogaeth os ydynt hwy, neu eu plant neu rywun maent yn eu hadnabod, mewn perygl oherwydd camddefnyddio cyffuriau. Mae tua traean o'r galwadau i linell gymorth FRANK yn dod gan 'eraill sydd yn poeni', llawer ohonynt yn rieni²⁵. Byddwn yn darparu gwybodaeth wedi ei deilwria a chyngor i rieni ar sut i amddiffyn eu plant rhag camddefnyddio cyffuriau neu ddiodydd meddwol trwy FRANK a chefnogaeth yn y brif lif i rieni.

YMYRIAD CYNNAR I BOBL IFANC A THEULUOEDD

Mae rhai pobl ifanc yn wynebu risg gynyddol o ddatblygu problemau gyda chyffuriau neu ddiodydd meddwol. Mae grwpiau bregus - fel y rhai sydd yn osgoi mynd i'r ysgol neu wedi eu heithrio o'r ysgol, plant mewn gofal, troseddwyd ifanc a rhai sydd yn debygol o fod ynghlwm wrth droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, rhai â phroblemau iechyd meddwl, neu'r rhai sydd â rhieni sydd yn gamddefnyddio cyffuriau neu ddiodydd meddwol - angen cefnogaeth wedi ei dargedu er mwyn atal camddefnyddio sylweddau, neu ymyriadau cynnar pan fydd y problemau yn codi gyntaf.

Y ffordd orau o ymateb i'r anghenion hyn yw ar lefel leol, gyda chefnogaeth tystiolaeth cenedlaethol cyson a chyngor ar dulliau effeithiol o fynd i'r afael ag unrhyw broblem. Byddwn yn symleiddio cyllidebau i awdurdod lleol, gan gynnwys creu Grant Ymyriadau Cynnar unigol, gwerth tua £2 biliwn erbyn 2014-15. Bydd hyn yn tynnu ynghyd ystod o ffynonellau cyllido ar gyfer gwasanaethau atal ac ymyriadau cynnar, gan roi i Llywodraeth leol yr hyblygrwydd i gynllunio dull o gael y mynediad mwyaf effeithiol at grwpiau bregus. Ochr yn ochr â'r Grant Iechyd Cyhoeddus, bydd hyn yn galluogi ardaloedd lleol i gymryd agwedd strategol at fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau a diodydd meddwol fel rhan o gefnogaeth ehangach ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd bregus.

Cafwyd tystiolaeth mewn rhai achosion bod ymyriadau sydd wedi eu ffocysu ar y teulu ymhlith y dulliau gorau o atal pobl ifanc rhag camddefnyddio sylweddau. Mae ardaloedd lleol eisoes yn defnyddio ystod o ddulliau sydd yn canolbwyntio ar y teulu. Mae'r dulliau hyn wedi arwain at leihad arwyddocaol yn y risg sydd ynghlwm wrth camddefnyddio sylweddau, trafferthion gyda iechyd meddwl a diogelu plant ac wedi arwain at leihad mewn ymddygiad gwrth-gymdeithasol, troseddau a thrais yn y cartref²⁶.

Mewn sawl ardal leol, mae arweinwyr yn ailgynllunio eu gwasanaethau fel eu bod mewn gwell sefyllfa i ymateb i'r pwysau mae anghenion teuluoedd gyda llawer o broblemau yn eu rhoi ar wasanaethau, ac i ddefnyddio cefnogaeth a seiliwyd ar gefnogaeth teuluoedd i atal problemau pellach rhag datblygu. Mae ymyriadau dwys yn gost effeithiol gyda phob £1 miliwn a gaiff ei wario yn arbed £2.5 miliwn i awdurdodau lleol a'r wladwriaeth²⁷.

Yn aml gwelir bod perthynas rhwng camddefnydd pobl ifanc o sylweddau a throseddu ac maent yn rhannu'r un achosion, gyda 41% o'r bobl ifanc sydd yn chwilio am gymorth ar gyfer eu camddefnyddio o gyffuriau neu ddiodydd hefyd yn rhan o'r system gyfiawnder ieuencid²⁸. Mae cyllido newydd ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuencid yn bwriadu gwobrwyo llywodraeth leol am ddod o hyd i ffyrdd dyfeisgar i leihau'r nifer o bobl ifanc sydd yn troseddu, gan gynnwys mynd i'r afael â'r camddefnyddio o gyffuriau a diodydd meddwol ble maent yn rhan o'r rheswm dros y troseddu.

Rhoddir yr hawl i Gyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant i fabwysiadu agwedd gydlynol, integredig, i benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio eu hadnoddau i atal ac i ymdopi gyda'r camddefnyddio o gyffuriau a diodydd meddwol. Byddant yn cael eu cefnogi gan

25 FRANK Helpline Annual Report 2009-10

26 Hamilton, S. (2010) Monitoring and Evaluation on Family Intervention Projects to March 2010. O. Statistical Release. Department for Education

27 Kendall, S., Rodger, J. and Palmer, H. (2010) Redesigning provision for families with multiple problems: early impact and evidence of local approaches. Research Report DFE-RR046. Department for Education

28 National Treatment Agency internal data (from 2009)

dystiolaeth, gan gyngor a thrwy rannu'r dulliau mwyaf effeithiol gan yr ardaloedd hynny sydd eisoes yn llwyddo. A gallant gael gafael ar gyllidebau hyblyg, wedi eu symleiddio trwy'r Grant Ymyriadau Cynnar a Grant Iechyd Cyhoeddus.

I'r bobl ifanc hynny sydd eisoes wedi eu niweidio gan gyffuriau neu ddiodydd meddwol, neu sydd yn debygol o fynd yn ddibynnol ar y sylweddau hyn, cynigir mynediad cyflym i gefnogaeth fydd yn mynd i'r afael

â'r camddefnydd ynghyd ag unrhyw broblemau pellach maent yn eu hwynebu. Rhaid i wasanaethau camddefnyddio sylweddau, troseddu ymhlith yr ifanc, iechyd meddwl a gwasanaethau plant, oll weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y gefnogaeth hon yn ei lle.

Dylid gosod y ffocws ar bob gweithgaredd ymhlith pobl ifanc sydd yn camddefnyddio cyffuriau neu ddiodydd meddwol ar atal y cynydd mewn defnydd a'r niwed a ddaw yn sgil, gan gynnwys atal y bobl ifanc rhag tyfu yn oedolion sydd yn ddibynnol ar gyffuriau ac ar ddiodydd meddwol. Rhaid i ymyriadau ymateb yn gynyddrannol i'r risg yn nhermau defnydd, breuder, ac, yn bennaf, oedran.

Yr amcan ar gyfer yr ychydig bobl ifanc hynny sydd yn datblygu dibyniaeth yw ymryddhau o afael cyffuriau neu ddiodydd meddwol. Mae hyn yn galw am driniaeth wedi ei strwythuro gyda'r amcan o lwyrwmwrthod yn y pen draw, gyda chymorth gwasanaethau arbenigol i bobl ifanc megis Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Ar gyfer y bobl ifanc mwyaf bregus, bydd angen pecyn gofal lleol aml-asiantaeth - sy'n cynnwys triniaeth, llety gyda chefnogaeth, maethu a chefnogaeth addysgol. Bydd angen sylw hefyd i sicrhau bod unrhyw drefniadau trosglwyddo o wasanaethu plant i wasanaethau i oedolion ar lefel leol.

DEDDFWRIAETH, DEDFRYDU A CHYFEIRIO

Mewn perthynas â dibyniaeth ar gyffuriau a throseddu, rhaid i'r fframwaith ddedfrydu gefnogi'r llysoedd i gynnig dewisiadau, ar wahân i garchar, fydd o help i'r troseddwr fynd i'r afael â'i ddibyniaeth ar gyffuriau neu ddiodydd meddwol, tra'n cydnabod hefyd bod angen cyfnod yn y carchar i rai troseddwr. Mae Anghenion Adsefydlu Cyffuriau (DRR) yn cynnig dewis grymus i'r llysoedd – trwy drafod troseddwr, triniaeth a phroffion – ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnydd a throseddau llawer o'r oedolion mwyaf problematig. Rydym eisieu cryfhau'r defnydd o ddedfrydau cymunedol i oedolion, gan gyfuno anghenion cyffuriau a diodydd meddwol gyda dewisiadau dedfrydu eraill, megis Ad-Dalu'r Gymuned, i wneud dedfrydau yn fwy cadarn ac i sicrhau bod y gosb yn weladwy yn y gymuned.

TROSEDDWYR

Efallai nad y carchar yw'r lle gorau bob amser i unigolion oresgyn eu dibyniaeth a'u hymddygiad troseddol. Rydym yn dal i gefnogi ardaloedd wrth iddynt gyflwyno'r Rhaglen Ymyriadau mewn Cyffuriau (DIP), ac eisieu sicrhau bod troseddwr yn cael eu hannog i chwilio am driniaeth a gwellhad ar bob cyfle trwy eu cyswllt gyda'r system weinyddiaeth gyfiawnder (CJS). Yn ogystal â hyn, byddwn yn annog y rhai hynny sydd yn ddibynnol ar gyffuriau neu ar ddiodydd meddwol i droi at wasanaethau yn y gymuned sydd yn ffocysu ar wella:

- Trwy ddatblygu a gwerthuso dewisiadau sydd yn cynnig ffurfiau amgen o lety a seiliwyd ar driniaeth yn y gymuned;
- Trwy sicrhau bod gwasanaethau cyswllt a chyfeirio ar gael yn ystafelloedd cadw yr heddlu ac mewn llysoedd erbyn 2014; a
- Thrwy gyfeirio pobl ifanc fregus oddi wrth y system gyfiawnder ieuencid fel bo hynny yn addas. Ar hyn o bryd mae cynlluniau dargyfeirio wrth i rywun gael ei arestio yn profi yn ddull effeithiol o drafod pobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth. Byddwn yn ystyried sut y medrwn ehangu'r cynlluniau hyn. Bydd gwerthusiad o'r Cynllun Cyswllt Cyfiawnder ieuencid yn cael ei gwblhau yn hydref 2011.

Byddwn yn arbrofi gyda gwasanaethau adferiad wedi eu seilio ar yr adain mewn carchardai i oedolion, gyda'r ffocws ar lwyrymwrthod (adain gwella o gyffuriau), yn ogystal ag annog mwy o droseddwr sydd wedi gwella o'u problemau gyda ccyffuriau a diodydd meddwol i fod yn fentoriaid neu yn 'Hyrwyddwyr Gwella'. Ceir manylion llawn yr holl argymhellion hyn yn eu manylder ym Mhapur Gwyrdd y Weinyddiaeth Gyfiawnder "Breaking the Cycle: Effective Punishment, Rehabilitation and Sentencing of Offenders"²⁹.

O Ebrill 20 11, bydd yr Adran Iechyd yn derbyn cyfrifoldeb am gyllido'r holl driniaethau cyffuriau mewn carchardai ac, ynghyd â'r Swyddfa Gartref, yn cyfrannu at y DIP. Bydd y newidiadau hyn mewn cyfrifoldebau yn cefnogi uchelgais y Llywodraeth i roi mwy o bwyslais ar rannu canlyniadau ac yn darparu cyfle i hybu cyd-gomisiynu gwasanaethau cyffuriau yn Lloegr. Bydd hyn yn hwyluso'r system o gefnogaeth wedi ei gydlynw i helpu unigolion wella o'u dibyniaeth ar gyffuriau, gan gynnwys y rhai hynny sydd mewn cysylltiad â'r CJS.

²⁹ Breaking the Cycle: Effective Punishment, Rehabilitation and Sentencing of Offenders (2010). Ministry of Justice

CYFYNGU CYFLENWADAU

Busnes byd eang wedi ei reoli gan droseddwr cyfundrefnol nad ydynt yn parchu ffiniau na chyfreithiau rhyngwladol yw'r fusnes o gynhyrchu a masnachu cyffuriau anghyfreithlon. Amcangyfrifir bod y fasnach mewn cyffuriau anghyfreithlon yn y DU werth £4–6 biliwn y flwyddyn³⁰. Rydym yn benderfynol o leihau'r cyflenwad ymhellach trwy ddefnyddio ymateb cydlynol ar draws y Llywodraeth a gorfodaeth y gyfraith i wneud y wlad hon yn fwy o her i droseddwr cyfundrefnol. Fe fyddwn, felly, yn cyhoeddi strategaeth newydd trosfwaol - Strategaeth Troseddau Cyfundrefnol y Llywodraeth - yng Ngwanwyn 2011. Mae risg troseddau cyfundrefnol yn flaenoriaeth yn y strategaeth Diogelwch Cenedlaethol newydd, fydd yn adlewyrchu'r pwyslais mae'r Llywodraeth hon yn gosod ar fynd i'r afael ag ef. Bydd gweithredu ar leihau'r cyflenwadau hyn yn ffurfio rhan o'n hagwedd at leihau troseddau hefyd, a bydd hyn yn ymddangos yn ein Strategaeth Troseddau'r Llywodraeth sydd i'w gyhoeddi yn gynnar yn 2011.

Daw'r rhan fwyaf o gysglyddion anghyfreithlon yn y DU o Afghanistan. Daw'r holl gyflenwadau cocên a gyflenwir i'r DU o ardal yr Andes yn Ne America ac fe'u cludir yn uniongyrchol i'r DU, neu trwy Ewrop, y Caribî a Gorllewin Affrica.

Mae Asesiad Bygythiadau Troseddau Cyfundrefnol yn y DU (UKTA) yn asesu'r bygythiadau i'r DU gan droseddwr cyfundrefnol. Gosodir manylion adwaith gorfodaeth y DU i'r fasnach gyffuriau yn Strategaeth Rheoli Troseddau Cyfundrefnol y DU gyda thair rhaglen benodol o weithredu i fynd i'r afael â chyffuriau: masnach gyffuriau hemisffer y Dwyrain, heroin yn bennaf; masnach gyffuriau hemisffer y Gorllewin, sydd yn cynnwys cocên a chyffuriau synthetig; a'r fasnach gyffuriau anghyfreithlon oddi mewn i'r DU. Cynlluniwyd y rhaglenni hyn i gryfhau pwysau gorfodaeth ar y fasnach, i gynyddu'r risg i'r rhai hynny sydd ynghlwm â'r fasnach a thrwy hynny dorri ar argaeledd a chyflenwadau i'r DU, o'r ffynhonnell i'r stryd. Gwneir hyn drwy ddifa cynydau, tarfu ar gynhyrchiad, ychwanegu at ymyriadau gorfodaeth cyfreithiol a ffocysu adnoddau archwilio ar y rhai hynny sydd yn rheoli'r fasnach.

DIWYGIADAU GORFODAETH CYFREITHIOL

Rydym eisoes wedi rhyddhau'r heddlu'r o liaws o dargedau prosesu, gan eu galluogi i ffocysu ar y troseddau a'r anrhefn sydd bwysicaf yn eu hardaloedd lleol. Bydd Mapiau Trosedd yn rhoi gwybod i bobl leol beth sy'n digwydd yn eu hardaloedd. Ni fyddwn yn cyfeirio at broblemau cyffuriau ar lefel leol fel ymddygiad gwrth-gymdeithasol – troseddau yw masnachu cyffuriau a bod â chyffuriau yn eich eiddo.

Dros y 4 blynedd nesaf, rydym am fynd ymhellach eto. Bydd cyflwyno'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (PCCs) yn dwyn atebolrwydd lleol democrataidd i'r heddlu a fydd yn gyfrifol i bobl leol am leihau troseddau ac anrhefn, gan gynnwys troseddau yn ymwneud â chyffuriau.

Bydd yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol newydd (NCA) yn arwain y frwydr yn erbyn troseddau cyfundrefnol ac, ar y cyd ag Asiantaeth Ffiniau y DU (UKBA) bydd yn gweithio ar benderfyniad y Llywodraeth i gryfhau diogelwch ein ffiniau. Bydd yn gweithio hefyd gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn y gwledydd sydd yn cyflenwi a'r gwledydd mae'r cyflenwadau yn teithio drwyddynt. Bydd yr asiantaethau yn cryfhau eu hymdrechion i fynd i'r afael â chyffuriau, dramor ac ar y ffiniau, ac yn rhwystro cyflenwyr rhag mewnforio cyffuriau i'r DU.

Bydd UKBA a'r NCA yn lleoli eu hasedau ar ffiniau'r DU a thramor, gan weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill sydd yn gorfodi'r gyfraith yn erbyn y bygythiad a gyflwynir gan yr ystod eang o gyffuriau, y cemegau a gymysgir gyda'r cyffuriau a'u rhagflaenyddion, yn ôl y blaenoriaethau. Bydd y frwydr yn erbyn heroin a cocên yn dal i fod yn flaenoriaeth, ynghyd â disgwyliaid clar bod pob asiantaeth sydd yn mynd i'r afael â chyffuriau yn ymateb yn effeithiol i'r tirwedd cyffuriau sydd yn

30 Pudney, S., Badillo, c., Bryan, M., Burton, J., Conti, G. and Iacovu, M. (2006) Estimating the size of the DU illicit drug market In Singleton, N., Murray, R. and Tinsley, L. (eds.) Measuring different aspects of problem drug use: methodological developments. Home Office Online Report 16/06

newid, gan gynnwys y cyffuriau newydd sydd yn ymddangos ar y farchnad.

GORFODAETH LLEOL INTEGREDIG

Saif yr heddlu wrth galon gorfodaeth lleol. Bydd plismona lleol da yn casglu gwybodaeth am fasnachwyr lleol, yn cynnig sicrwydd ac amlygrwydd i'r cyhoedd ac yn atal y rhai hynny a fyddai, fel arall, yn brawychu cymdogaethau.

Byddwn yn atgyfnerthu'r cydlyniad rhwng yr heddlu a phartneriaid lleol. Bydd yr heddlu yn gweithio gyda Phartneriaid Diogelwch Cymunedol (CSPs), asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, y cyhoedd, gwasanaethau cyffuriau a defnyddwyr cyffuriau eu hunain er mwyn deall a tharfu ar y farchnad gyffuriau. Mewn rhai ardaloedd, mae cyffuriau ar wahân i gyffuriau dosbarth A -megis amffetaminau, canabis, neu steroidau anabolig -yn achosi problemau arwyddocaol. Byddwn yn cefnogi ardaloedd i addasu eu hymateb ac yn profi syniadau newydd.

Mae Rheolaeth Integredig Troseddwyr (IOM) yn dwyn ynghyd yr heddlu, y gwasanaeth profiannaeth, timau troseddwyr ifanc, awdurdodau lleol a grwpiau gwirfoddol a chymunedol. Wrth weithio gyda'i gilydd maent yn adnabod, cefnogi ac yn trin troseddwyr sydd yn flaenoriaeth, gan gynnwys troseddwyr sydd yn camddefnyddio cyffuriau, ac yn eu cyfeirio oddi ar lwybrau defnyddio gyffuriau a throseddu. Bydd yr IOM, yn amlach ac yn amlach, yn ymestyn y tu hwnt i'r partneriaid traddodiadol i gyflenwyr eraill yn y sectorau gwirfoddol a phreifat ac yn annog y cyhoedd i greu a darparu datrysiadau. Rydym yn benderfynol o harneisio egni a mentrau blaengar y partneriaid lleol a'r cymunedau i fynd i'r afael â'r broblem gyffuriau, trwy annog a chefnogi agweddau blaengar a rhannu ymarferion da parthed yr hyn sydd yn gweithio orau.

LLEIHOU CYFLENWADAU O GYFFURIAU MEWN CARCHARDAI

Rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd heb gyffuriau yn y carchar a byddwn yn cynyddu'r nifer o adenydd lle bydd mesurau diogelwch tynn iawn yn atal mynediad i gyffuriau.

Byddwn yn tarfu ar y rhai hynny sydd wedi eu cyhuddo o ddelio gyda chyffuriau rhag iddynt barhau gyda'u hymddygiad troseddol o'r tu mewn drwy gryfhau ein gwybodaeth o'r hyn sydd yn digwydd yn y carchardai. Mae Gwasanaeth Cenedlaethol Trin Troseddwyr (NOMS) wedi ffurfio strategaeth i leihau'r nifer o ffonau poced sydd ar gael mewn carchardai, i ddod o hyd i ffonau sydd yn cael eu cludo i mewn a tharfu ar ffonau symudol na ellir dod o hyd iddynt. Ar yr un pryd byddwn yn dal i ddefnyddio ystod eang o fesurau diogelwch ac yn ystyried potensial technoleg newydd i atal cyffuriau rhag cael eu cludo i mewn ac yna eu masnachu yn y carchar.

BUSNESAU TROSEDDOL

Mae'r farchnad cyffuriau anghyfreithlon y DU yn dal i ddenu troseddwyr cyfundrefnol. Mae'r ffin draddodiadol rhwng mewnforwyr rhyngwladol a'r cyflenwyr cyfanwerthu sydd wedi eu seilio yn y DU yn fwy ac yn fwy aneglur. Mae troseddwyr cyfundrefnol, rhai ohonynt wedi eu lleoli dramor, yn brysur ar bob lefel o fasnach gyffuriau y DU ac mae gangiau yn aml yn mabwysiadu mathau eraill o droseddau cyfundrefnol. Byddwn yn rhannu gwybodaeth ar draws heddluoedd, NCA, UKBA ac eraill i gynyddu ein deall o bwy sydd yn rhan o'r darlun a sut maent yn gweithredu. Byddwn yn gweithredu ar bob lefel o'r gadwyn ddosrannu, gan weithio ar y cyd, ar lefel ranbarthol, i ddod yn ymwybodol o ac i darfu ar fannau lle digwydd y dosrannu, a chyfyngu cyflenwadau i fasnachwyr lleol.

SYLWEDDAU SEICOWEITHREDOL NEWYDD ('LEGAL HIGHS')

Mae'r Llywodraeth yn benderfynol o fynd i'r afael â'r mater o'r sylweddau newydd a elwir yn 'legal highs'. Gwyddom y gall y sylweddau hyn greu bygythiad difrifol, yn enwedig i ieuchyd pobl ifanc. Mae arnom angen ymateb sydyn ac effeithlon ac felly rydym yn ailgynllunio'r fframwaith cyfreithiol trwy ddatblygu gorchmynion dosbarthu cyffuriau dros dro er mwyn medru gweithredu ar unwaith. Byddwn

yn cryfhau'r gallu ffrensig i ddadansoddi'r sylweddau seicoweithredol newydd ac yn sefydlu system ffrensig o rybudd cynnar.

Mae UKBA yn gweithredu ar y ffiniau i dargedu ac atal cyflenwadau o'r sylweddau newydd hyn. Mae SOCA yn datblygu dulliau o adnabod mewnforwyr, dosbarthwyr a gwerthwyr y sylweddau 'legal highs' ac o darfu ar eu gweithgarwch, gan gynnwys gweithredu yn erbyn gwefannau. Rydym hefyd yn cyflwyno technoleg ar y ffiniau er mwyn adnabod y mathau newydd hyn o sylweddau.

Caiff y gweithgareddau gorfodi hyn eu cyfuno gydag atal, addysg a thriniaeth. Byddwn yn parhau i bwysleisio, er ei bod yn gyfreithlon i gael cyffur yn eich meddiant, nid yw hyn yn golygu ei fod yn ddiogel ac mae'n debyg bod y cyffuriau sy'n cael eu gwerthu fel 'legal highs' yn cynnwys sylweddau nad ydynt yn gyfreithlon i'w meddu.

LLEIHOU GWERTHIANT AR Y RHYNGRWDYD

Mae'r rhyngrwyd wedi chwyldroi ein byd a'n dull o fyw. Fodd bynnag, yn ogystal â newid ein ffordd o siopa, o hel gwybodaeth ac o gadw mewn cysylltiad, mae hefyd wedi newid y ffordd mae pobl yn prynu cyffuriau. Rydym yn benderfynol o fynd i'r afael â hyn.

Bydd asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn parhau i weithio yn erbyn cyflenwyr y rhyngrwyd yn y DU i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â llythren ac ysbryd deddfau'r DU. Bydd Asiantaeth Rheoleiddio Moddion a Chynnyrch Gofal Iechyd (MHRA) yn gwneud defnydd llawn o'r dulliau rheoli deddfwriaethol sydd yn bodoli dan ddeddfwriaeth meddyginiaethau.

DILYN YR ARIAN A CHIPIO'R ASED AU

Arian sydd yn gyrru troseddau cyfundrefnol. Yn ystod y dair blynedd ddiwethaf, mae dros £90 miliwn wedi ei gipio oddi ar fasnachwyr cyffuriau trwy orchmynion atafaelu, gyda £25 miliwn pellach mewn arian gleision wedi ei gipio oddi ar fasnachwyr cyffuriau³¹. Ond rydym ni eisiau gwneud rhagor. Er mwyn gostwng elw'r fasnach gyffuriau ymhellach, ein bwriad yw cynyddu ein gweithgarwch yn erbyn yr hyn a dybir sydd werth £2 biliwn o elw a godir trwy droseddau; daw cyfran helaeth o'r elw hyn o'r fasnach gyffuriau anghyfreithlon yn y DU, trwy atafaelu arian ac asedau³². Rydym eisiau cynyddu'r erlyniadau yn erbyn y rhai sydd yn gwyngalchu arian a tharfu fwyfwy ar gyllid troseddau, trwy adfeddiant troseddol a dinesig a thrwy wrthod asedau.

Byddwn hefyd yn mabwysiadu agwedd ddiostur at weithredu gorchmynion atafaelu trwy ei gwneud yn haws i asiantaethau gorfodi'r gyfraith ailymweld â thaliadau sydd yn dal yn ddyledus, a thrwy gynyddu ein gallu i daro cyllid troseddol a gedwir dramor. Byddwn yn ceisio prif-ffrydio'r defnydd o archwiliadau cyllid, trwy fynd i'r afael â chyllid troseddol yn fwy eang ar lefel leol ac thrwy ailffocysu gwaith y Timau Atafaelu Asedau Rhanbarthol fel y gallant ddefnyddio eu sgiliau arbenigol ochr yn ochr â'r NCA er mwyn taro'r masnachwyr cyfundrefnol.

Byddwn yn cynyddu'r costau a'r risg i fasnachwyr cyffuriau. Bydd asiantaethau gorfodi'r gyfraith a'u partneriaid yn greadigol, gan fanteisio i'r eithaf ar ddefnyddio dulliau cost-ffeithiol a blaengar o orfodi'r gyfraith er mwyn tarfu ar gyflenwadau a lleihau elw. Trwy ein hymdrechion rhyngwladol, byddwn yn gwarafun i'r masnachwyr cyffuriau a'r rhai sydd yn gwyngalchu arian iddynt y gwasanaethau a gynigir gan sefydliadau ariannol cyfreithlon ac yn meithrin cymorth cydrhwng cyrff i adnabod ac atafaelu asedau troseddau sydd yn ymwneud â'r fasnach gyffuriau.

SYLWEDDAU CYMYSGU A RHAGSYLWEDDION CEMEGOL

Wrth i'n gweithredu gorfodaeth ddechrau cael effaith, rydym yn gwybod y bydd troseddau

31 Home Office. Internal Provisional Management Information taken from the Joint Asset Recovery database (07/08-09/10)

32 Prichard, S. 'A suggested methodology for estimating the value of criminal assets available for seizure' In 'Organised crime: revenues, economics and social costs, and criminal assets. Home Office

cyfundrefnol yn edrych fwyfwy at y cyfle i ddefnyddio sylweddau i'w cymysgu gyda chyffuriau er mwyn cynnal eu helw. Dros y deng mlynedd a aeth heibio, mae'r cocên a werthir yny DU ar lefel cyfanwerthu (h.y. tuag 1kg) wedi dyblu mewn pris i tua £50,000 y kg tra yn yr un cyfnod mae purdeb y cyffur wedi mwy na haneru (o tua 50% i 20%)³³. Caiff y purdeb ei leihau ymhellach wrth iddo gyrraedd y defnyddiwr – mewn ambell achos i lai na 5%³⁴. Byddwn yn meithrin agwedd gadarn i atal troseddwr rhag elwa o'r fasnach mewn sylweddau cymysgu a rhagsylweddion cemegol, gan weithio gyda gwledydd sydd yn cynhyrchu, y fasnach gyfreithlon a phartneriaid rhyngwladol.

CRYFHAU PARTNERIAETHAU RHYNGWLADOL

Fel llofnodwyr tri chytundeb y Cenhedloedd Unedig ar gyffuriau³⁵, a thrwy ein haelodaeth o Gomisiwn y CU ar Gyffuriau Narcotig (y corff sydd yn goruchwyllo'r Cytundebau), byddwn yn gweithio ar y cyd gyda'n partneriaid rhyngwladol, megis yr Undeb Ewropeaidd a'r Grŵp o Wyth (G8), i annog ymateb cydlynol i'r fasnach gyffuriau anghyfreithlon a chynnig adnoddau rhyngwladol i gefnogi ein blaenoriaethau. Mae'r DU yn gosod cryn werth ar waith Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddau (UNODC) sydd yn chwarae rôl unigryw, gan ddarparu prosiectau technegol fydd yn helpu aelodau eraill i frwydro yn erbyn cyffuriau anghyfreithlon, troseddau a brawychiaeth. Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd i gefnogi'r gwaith hwn.

Byddwn yn parhau i weithredu a rheoleiddio system genedlaethol o reolaeth domestig, trwy weithredu cyfundrefn drwyddedu a chydymffurfio effeithiol fel rhan o'n dyletswyddau dan gonfensiynau cyffuriau y CU.

Gan weithio gyda partneriaid tramor, byddwn yn ffocysu ymdrechion gorfodi ar fynd i'r afael â'r fasnach gyffuriau rhyngwladol, yn enwedig heroin o Afghanistan; cocên o America Ladin trwy'r Caribî a Gorllewin Affrica; a sylweddau seicoweithredol newydd ('legal highs'), rhagsylweddion cemegol a sylweddau a ddefnyddir i'w cymysgu gyda chyffuriau, rhain o China ac India. Byddwn yn gwneud defnydd mwy effeithiol o alluoedd y Llywodraeth dramor, gan gynnwys ein hasedau diplomyddol a milwrol, er mwyn cryfhau cydweithrediad a gweithio gyda'n partneriaid i darfu ar ffynhonnell y masnachwyr cyffuriau neu yn y gwledydd maent yn teithio drwyddynt. Yn ogystal âhyn, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â llygredd ac i gryfhau llywodraethu.

33 Serious Organised Crime Agency Evidence to the session 2009-10 Home Affairs Select Committee Enquiry into the Cocaine Trade -HC74-11

34 Serious Organised Crime Agency Evidence to the session 2009-10 Home Affairs Select Committee Enquiry into the Cocaine Trade -HC74-11

35 Single Convention on Narcotic Drugs of 1961 as amended by the 1972 Protocol; Convention on Psychotropic Substances of 1971; and United Nations Convention Against Illicit Traffic in Narcotic Drugs and Psychotropic Substances of 1988

CREU ADFERIAD MEWN CYMUNEDAU

Bydd y Llywodraeth hon yn gweithio gyda ac yn cynnig pob cyfle i'r bobl hynny sydd yn wynebu'r problemau a achosir gan eu dibyniaeth ar gyffuriau neu ar ddiodydd meddwol, ac sydd yn fodlon cymryd camau i fynd i'r afael â nhw.

Mae'r buddsoddiad a wnaed dros y deng mlynedd a aeth heibio yn y system o drin cyffuriau wedi galluogi pobl i gael mynediad i driniaeth am gyfnod digon hir i wneud gwelliant sylweddol i'w hiechyd. Rhaid i ni nawr wneud yr un cynnydd wrth drin y rhai hynny sydd yn fwy dibynnol ar ddiodydd meddwol a bod yn fwy uchelgeisiol ar ran yr unigolion hynny sydd eisiau gadael y driniaeth yn hollol rydd o'u dibyniaeth er mwyn iddynt gael adferiad llwyr.

Byddwn yn creu system o wella sydd yn ffocysu nid yn unig ar gael pobl i dderbyn triniaeth a chwrrd â thargedau, ond eu cael i wella'n llwyr ac i roi'r gorau i gyffuriau a diodydd meddwol yn barhaol. Trwy'r newid parhaol hyn yn unig y daw unigolion i roi'r gorau i droseddu, i beidio â'u niweidio eu hunain a'u cymunedau ac i gyfrannu'n llwyddiannus i gymdeithas.

TAITH UNIGOL, WEDI EI SEILIO AR UNIGOLYN, YW GWELLA

Er mwyn gwella, rhaid ystyried tair egwyddor sylfaenol – lles, dinasyddiaeth a rhyddid rhag dibyniaeth. Taith unigol yw hi, wedi ei seilio ar unigolyn, yn hytrach na chyflwr, ac un fydd yn golygu pethau gwahanol i wahanol bobl. Felly mae'n rhaid i ni osod yr unigolyn wrth galon unrhyw system o wellhad a chomisiynu rhychwant o wasanaethau ar lefel leol i ddarparu pecynnau gofal a chefnogaeth sydd wedi eu teilwra. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i wasanaethau lleol ystyried anghenion amrywiol eu cymuned wrth gomisiynu gwasanaethau.

Ein nod, yn y pen draw, yw galluogi unigolion i ymryddhau o'u dibyniaeth; rhywbeth sydd ym meddwl y mwyafrif llethol o bobl sydd yn ceisio triniaeth am gyffuriau. Mae cefnogi pobl i fyw bywyd yn rhydd o gyffuriau wrth galon ein huchelgais i'w gwella.

Mae rhagnodi amgen yn dal i chwarae rôl wrth drin dibyniaeth ar heroin, yn nhermau sefydlogi'r defnydd o gyffuriau ac wrth gefnogi dadwenwyno. Gyda help meddygol, mae modd gwella. Ceir miloedd lawer o bobl sydd yn derbyn rhagnodau o'r math hyn yn ein cymunedau heddiw sydd mewn cyflogaeth, sydd yn mwynhau bywyd teuluol llawn ac sydd wedi rhoi'r gorau i gymryd cyffuriau a throi cefn ar fywyd o droseddu. Byddwn yn dal i ystyried swyddogaeth posibl rhagnodi diamorffin i'r nifer fechan all gael budd ohono, ac yng ngoleuni hyn byddwn yn ystyried pa gamau pellach y medrwn eu cymryd, yn enwedig i'w helpu peidio troseddu eto.

Er hyn, i ormod o bobl sydd ar ragnodyn amgen ar hyn o bryd, mae risg mai'r cam cyntaf ar y daith i adferiad fydd y cam olaf. Rhaid i hyn newid. Byddwn yn sicrhau bod pawb sydd ar ragnodyn amgen yn cyfrannu i weithgareddau gwella ac yn adeiladu ar 15,000 y flwyddyn o ddefnyddwyr heroin a crac cocên sydd yn cwblhau cwrs o driniaeth yn llwyddiannus, yn rhydd o'u dibyniaeth ar gyffur/iau³⁶.

ADEILADU AR YR ADNODDAU GWELLA SYDD AR GAEL I UNIGOLION

Un o'r arwyddion gorau bod gwella yn debyg o barhau yw 'cyfalaf adfer' unigolyn -yr adnoddau sydd eu hangen i ddechrau ac yna cynnal adferiad o ddibyniaeth ar gyffuriau a diodydd meddwol. A dyma nhw³⁷:

- **Cyfalaf cymdeithasol** - yr adnoddau sydd gan unigolion o'u berthnasau (e.e. teulu, partneriaid,

³⁶ National Audit Office (2010) Tackling Problem Drug Use.

³⁷ Best, D. and Laudet, A.B. (2010) The Potential of Recovery Capital, RSA

plant, ffrindiau a chyfoedion). Mae hyn yn cynnwys y gefnogaeth a geir a'r ymrwymiad a'r goblygiadau sydd yn deillio o berthnasau;

- **Cyfalaf corfforol** - megis arian a llety diogel i fyw ynddo;
- **Cyfalaf dynol** - sgiliau, iechyd meddyliol a chorfforol, a chyflogaeth; a
- **Chyfalaf diwylliannol** - gwerthoedd, credoau ac agweddau'r unigolyn.

Byddwn yn gweithio gyda gwasanaethau sy'n cefnogi unigolion i dynnu ar y cyfalaf hwn ar eu taith tuag adferiad.

IN A SYSTEM THAT IS LOCALLY LED AND LOCALLY OWNED

Ar hyn o bryd rydym yn datblygu'r weledigaeth ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Lloegr (PHE)³⁸. Ein bwriad yw creu gweithgarwch cadarn, effeithiol, ar lefel leol, dan arweiniad Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus lleol, ar y cyd â gwasanaeth diwastraff dan arweiniad cenedlaethol sydd â'i ffocws ar ddiogelu iechyd cyhoeddus. Bydd Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus, yn yr awdurdod lleol, yn gyfrifol am wella iechyd ar lefel leol ac fe'u penodir ar y cyd rhwng y PHE a'r awdurdodau lleol. Daw hyn i fodolaeth ar ffurf drafft o Ebrill 2012 a bydd yn hollol weithredol, gyda'i gyllideb ei hun, o Ebrill 2013.

Cyhoeddwyd eisoes bod yr Asiantaeth Cenedlaethol ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau (NTA) yn dod i ben fel sefydliad ar wahân ac y bydd ei brif weithgarwch yn cael ei drosglwyddo i'r PHE³⁹. Yn y cyfamser, bydd yr NTA yn parhau gyda'r gwaith o gefnogi datblygiad system o drin cyffuriau er mwyn adfer iechyd a bydd yn helpu gwella gwasanaethau i'r rhai hynny sydd yn llwyr ddibynnol ar ddiodydd meddwol.

Bydd Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus yn gweld comisiynu a goruchwyllo gwasanaethau trin cyffuriau a ddiodydd meddwol fel rhan graidd o'u gwaith. Byddant yn chwarae rhan arweinwyr lleol allweddol wrth ddarparu canlyniadau iechyd cyhoeddus a byddant yn gweithio gyda phartneriaethau -gan gynnwys yr Heddlu a Chomisiynwyr Troseddau (PCCs), gwasanaethau cyflogi a thai, carchardai a phrofiannaeth -i gynyddu'r uchelgais i wella. Gallai hyn ddigwydd trwy Fryddau Iechyd Lleol a Lles, yn ôl canlyniadau'r ymgynghoriad diweddar *'Equity and Excellence: Liberating the NHS'*⁴⁰

Fel rhan o'u swyddogaeth newydd, byddwn yn disgwyl i Gyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus, ynghyd â phartneriaid lleol, sicrhau bod y gwasanaethau trin cyffuriau ac adferiad, a'r gwasanaethau i'r bobl hynny sydd yn llwyr ddibynnol ar ddiodydd meddwol, yn cael eu cyflwyno yn ôl yr ymarfer gorau. Byddem yn edrych ar hyn fel a ganlyn:

- **Bydd ardaloedd dan arweiniad lleol** yn rhydd i gynllunio a chomisiynau gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion lleol, gan gynnwys gwasanaethau i'r rhai hynny sydd yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol (CJS).
- **Systemau tendr cystadleuol a gwobrwyo** - gyda pherfformiadau tryloyw ac arian yn dod yn sgil llwyddiant. Gwobrwyir ardaloedd lleol a darparwyr sydd yn llwyddo.
- **Perfformiadau tryloyw** – mae atebolrwydd lleol yn allweddol. Ni fyddwn yn dweud wrth ardaloedd lleol beth ddylent fod yn ei ddarparu na sut i wneud hynny a byddwn yn symud i ffwrdd oddi wrth fecanwaith perfformiadau biwrocraidd sydd wedi eu seilio ar weithgarwch ac allbwn. Fe fyddwn, yn hytrach, yn ffocysu ar gefnogi atebolrwydd lleol ar gyfer darparu'r canlyniadau allweddol trwy gyflwyno data cyson, protocolau clinigol wedi eu diweddarau, dosrannu cyllid a datblygu sgiliau. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried ffactorau sydd yn effeithio ar adferiad megis tai lleol a'r farchnad gyflogaeth.

38 Public Health White Paper consultation, December 2010. Department of Health

39 Healthy Lives, Healthy People: Our strategy for public health in England (2010). Department of Health

40 The NHS White Paper, July 2010. Department of Health

BLE MAE POB GWASANAETHYN FFOCYSU AR GANLYNIADAU

Yr allwedd i ddarpariaeth lwyddiannus mewn system sydd yn canolbwyntio ar adferiad yw bod pob gwasanaeth wedi ei gomisiynu gyda'r canlyniadau arfer da hyn mewn golwg:

- Rhyddid o ddibyniaeth ar gyffuriau neu ddiodydd meddwol;
- Atal marwolaethau sydd yn gysylltiedig â chyffuriau a lledu firysau trwy waed;
- Lleihau troseddu ac ail-droseddu;
- Cyflogaeth cyson;
- Y gallu i gael mynediad i ac yna cadw llety addas;
- Gwella iechyd meddwl a chorfforol a lles;
- Gwella perthnasau gydag aelodau o'r teulu, partneriaid a ffrindiau; a
- Y gallu i fod yn rhiant effeithiol a gofalgar.

Nid fydd y Llywodraeth ganolog yn ceisio deddfu ar yr agweddau y dylai darparwyr eu mabwysiadu wrth gyflawni'r canlyniadau hyn ond yn hytrach bydd yn cymryd swyddogaeth ganolog wrth ymchwilio i a datblygu a chyhoeddi tystiolaeth o'r hyn sydd 'yn gweithio' a thrwy hybu arferion gorau.

CYFLWYNO TRWY DDEFNYDDIO AGWEDD 'SYSTEMAU CYFAN'

Os am sicrhau gwellhad, rhaid i'r canlynol weithio ar y cyd i ateb anghenion y person cyfan: addysg, hyfforddiant, cyflogaeth, tai, gwasanaethau cefnogi'r teulu, gwasanaethau iechyd ehangach a, ble bo hynny yn berthnasol, carchardai, profiannaeth a'r gwasanaethau cyfiawnder ieuencid. Gwelwyd y thema hon yn gyson trwy'r rhan fwyaf o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Tra yn adeiladau system wedi ei ffocysu ar adferiad, byddwn yn annog ardaloedd lleol nid i gomisiynu gwasanaethau ar wahân, ond i gomisiynu a darparu cefnogaeth ar y cyd. Mae angen creu cysylltiadau agos rhwng y gymuned, a darparwyr triniaeth mewn-gleifion a phreswyl ac adsefydlu, ac mae gofyn i'r rhain yn eu tro gysylltu yn agos gyda gwasanaethau ôl-ofal.

Mae sicrhau 'trosglwyddo diasiad' yn her allweddol, yn enwedig i'r oedolion hynny sydd yn symud rhwng y CJS a'r gwasanaethau cymunedol. Oherwydd yr angen hyn byddwn yn annog ardaloedd lleol i gronni cyllid er mwyn comisiynu gwasanaethau adfer ar y cyd. Yn benodol, fe all y bydd ardaloedd lleol yn dymuno mabwysiadu prosesau asesu a chyfeirio a fydd yn darparu un cynllun gofal integredig. Caiff y syniad hwn ei dreialu fei rhan o gyfres o gynlluniau peilot Talu yn ôl Canlyniadau. Y ffordd orau i sicrhau bod trefniadau lleol yn gweithio yw os byddant yn cynnwys yr holl asiantaethau perthnasol gan gomisiynu ar y cyd y gwasanaethau adsefydlu cyffuriau gyda gwasanaethau eraill lleol a, lle bo hynny yn berthnasol, gwasanaethau cenedlaethol.

TRWY WEITHLUYSBRYDOLEDIG Â'U BRYD AR WELLHAD

Bydd cadw gwellhad wrth galon egwyddorion yr holl wasanaethau perthnasol yn angenrheidiol. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr a chyrff proffesiynol sydd yn ymwneud â thrin cyffuriau a diodydd meddwol, iechyd meddwl, cyflogaeth, cyfiawnder troseddol, tai a gwasanaethau teulu i hybu diwylliant o uchelgais a chred mewn adferiad.

Byddwn yn gweithio gyda'r Consortiwm Sgiliau Cenedlaethol i ddatblygu fframwaith o sgiliau sydd yn cefnogi'r agenda adferiad. Byddwn yn ymgynghori ar ailosod Fframwaith cyfredol y Gwasanaeth Cenedlaethol, 'Models of Care', gyda model holistig, wedi ei seilio ar dystiolaeth ac wedi ffocysu ar adferiad. Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar integreiddio'r triniaethau ar gyfer cyffuriau a diodydd meddwol yn un ddogfen ddiwygiedig. Byddwn yn gosod meini prawf i gleifion er mwyn darparu canlyniadau clinigol gwell, cynyddu'r gwerth am arian ac, yn bwysicaf, helpu unigolion i gael gafael ar y driniaeth gywir.

Byddwn yn parhau i gynnig hyfforddiant i gynghorwyr Jobcentre Plus fel bod ganddynt wybodaeth am ddibyniaeth ar gyffuriau a diodydd meddwol, a'u bod yn gwybod ble i anfon pobl ar gyfer eu hasesu. Bydd Jobcentre Plus yn parhau hefyd i weithio mewn partneriaeth agos gyda gwasanaethau cyffuriau a diodydd meddwol ar lefel leol a byddant yn cynnig cefnogaeth wyneb-yn-wyneb, cyngor ac arweiniad ar fudd-daliadau a chyflogaeth, trwy waith allanol lle bo hynny yn ymarferol ac yn addas, i ddefnyddwyr gwasanaethau a phobl broffesiynol ym maes cyffuriau sydd yn eu cefnogi.

CEFNOGAETH GAN RWYDWEITHIAU ADFER

Gall yr awydd i wella fod yn heintus. Mae pobl yn dweud wrthym eu bod wedi eu hysgogi i ddechrau ar y daith tuag at adferiad iechyd trwy weld y cynnydd mae eu cyfoeswyr yn ei wneud. Ac yn aml mae'r rhai hynny sydd wedi dechrau ar y daith hon yn y sefyllfa orau i gynnig cymorth. Bydd hybu gweithredol a chefnogaeth rhwydweithiau lleol megis Alcoholics and Narcotics Anonymous yn hanfodol. Byddwn hefyd yn cefnogi cymunedau i greu rhwydweithiau o 'Amddiffynwyr Adferiad' fydd yn lledu'r neges ei bod yn werth anelu at y nod o wella ac yn helpu'r rhai hynny sydd yn dechrau ar eu taith.

Rydym yn rhagweld ardaloedd lleol yn sefydlu 'Amddiffynwyr Adferiad' ar dair lefel:

- i) **Amddiffynwyr adfer strategol** - arweinwyr megis Comisiynwyr Cyffuriau a Diodydd Meddwol a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus fydd yn hybu'r system o adferiad;
- ii) **Amddiffynwyr adfer therapiwtig** - y rhai hynny sydd yn darparu gwasanaethau sydd wedi mabwysiadu dulliau llwyddiannus o adfer; ac
- iii) **Amddiffynwyr adfer cymunedol** - pobl sydd eisoes yn gwella, a fydd yn cael eu hannog i fentora a chefnogi eu cyfoedion ac yn cyfrannu i atal dibyniaeth mewn cymunedau ac ysgolion.

Mae tystiolaeth yn dangos bod triniaeth yn fwy tebyg o fod yn effeithiol ac adferiad yn fwy tebygol o barhau ble mae teuluoedd, partneriaid a gofaluwr yn chwarae eu rhan⁴¹. Byddwn yn annog ardaloedd lleol i hybu ymrwymiad gan y teulu cyfan i'r gwasanaethau adferiad, ac i ystyried darparu gwasanaethau cefnogi i'r teuluoedd a'r gofaluwr eu hunain.

CADW PLANT YN DDIOGEL AC AIL-GODI TEULUOEDD

Mae traean y boblogaeth sydd yn cael triniaeth yn gyfrifol am blant⁴². Bydd hyn yn annog rhai rhieni i gael triniaeth, i sefydlogi eu bywydau ac i chwilio am gymorth. I rai plant, bydd hyn yn arwain at niwed, camdriniaeth neu eu hesgeuluso^{43,44} ac i eraill bydd yn golygu derbyn cyfrifoldebau gofalu anaddas fydd yn peryglu eu hiechyd a/neu eu haddysg.

Tra bod gan rai gwasanaethau ymarferion effeithiol ac agweddau sydd yn diogelu lles plant, mae'n dal yn wir bod rhai plant yn 'anweledig' i wasanaethau sydd yn methu eu cydnabod nac ymateb i effeithiau ymddygiad y rhieni ar y plentyn⁴⁵.

Ble mae pryderon am ddiogelwch a lles plant, dylai gweithwyr proffesiynol o'r gwasanaethau i oedolion ac i blant, ynghyd â'r sector gwirfoddol, weithio ar y cyd i amddiffyn plant yn ôl yr arweiniad statudol *Working Together to Safeguard Children* (2010). Mae'r arweiniad hwn yn dangos yn glir, os yw plentyn

41 Copello, A., Velleman, R. & Templeton, L. (2005) Family interventions in the treatment of alcohol and drug problems. *Drug and Alcohol Review*, 24, 369-385

42 National Treatment Agency Media Release (2009) Moves to provide greater protection to children living with drug addicts

43 Brandon M, Bailey S, and Belderson P (2010), Building on the learning from serious case reviews: A two-year analysis of child protection notifications 2007-2009. London: Department for Education

44 Cleaver H, Nicholson D, Tarr S and Cleaver D (2007) Child protection, domestic violence and parental substance misuse: Family Experiences and effective practice

45 Working Together to Safeguard Children (2010) Chapter 9, inter-agency working to safeguard and promote the welfare of children, Department for Children, Schools and Families.

yn dioddef neu yn debygol o ddioddef niwed arwyddocaol, rhaid i weithwyr proffesiynol fwrw ati ar unwaith i sicrhau bod y plentyn hwnnw yn ddiogel, ac os oes angen, mynd â'r mater i'r llys. Fe all y bydd hyn yn galw am i'r plentyn gael ei roi yn nwylo'r awdurdod lleol, a, lle bo hynny yn addas, eu rhoi gyda theulu arall neu mewn cartref preswyl.

Yn Llundain, mae'r Llys Teuluoedd, Cyffuriau a Diodydd Meddwol yn darparu cefnogaeth arbenigol i rieni i'w helpu i oresgyn y problemau sydd yn codi o'u camddefnydd o gyffuriau a diodydd meddwol. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at leihau'r lefel o risg i'r plentyn a'r rhieni yn cael cymryd gofal o'r plentyn yna unwaith eto.

Mae chwarae rôl mwy cadarnhaol wrth fagu eu plant yn aml yn ffactor sydd yn ysgogi unigolion i wella'n llwyr. Y rhieni yw'r ffactor unigol mwyaf pwysig yn lles plentyn⁴⁶ ac felly mae'n hanfodol bwysig bod gwasanaethau ar gael i blant ac oedolion; mewn rhai achosion bydd hyn yn golygu bod y plentyn yn medru byw yn ddiogel o fewn y teulu tra bod problemau'r rhieni sydd wedi deillio o gamddefnyddio cyffuriau yn cael sylw. Adeg beichiogrwydd, gall bydwragedd chwarae rôl bwysig wrth adnabod y rhai hynny sydd yn ddibynnol ar gyffuriau neu ddiodydd meddwol ar adeg pan yw'r fam yn y cyflwr mwyaf parod i dderbyn help ac i wneud ei gorau er lles y plentyn sydd heb ei eni.

Mae gan nifer cynyddol o wasanaethau i deuluoedd sydd yn camddefnyddio cyffuriau a diodydd meddwol fodd i gael hyd i hyfforddiant fydd yn eu galluogi i adnabod arwyddion parthed diogelwch plant ac i ymateb i anghenion y teulu cyfan. Mae'r strategaeth hon yn annog y rhai hynny sydd yn gweithio gyda phlant a theuluoedd sydd wedi eu heffeithio gan gamddefnyddio sylweddau i dderbyn hyfforddiant addas fel y gallant ymyrryd yn gynnar er mwyn diogelu plant rhag niwed. Bydd effeithiau camddefnyddio sylweddau gan rieni yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad er mwyn datblygu maes llafur gradd mewn gwaith cymdeithasol ac fe gaiff ei ystyried trwy Adolygiad Munro o ymarferion gwaith cymdeithasol.

Mae'r mwyafrif o wasanaethau cyffuriau a diodydd meddwol plant a rhieni wedi creu neu yn datblygu protocolau gyda'r bwriad o osod allan sut y medrant weithio yn fwy effeithiol gyda'i gilydd er mwyn ymateb i bryderon ynglŷn â diogelwch, cefnogi rhieni i barhau i dderbyn triniaeth ac adeiladu ar eu sgiliau rhianta. Cyn hir bydd yr NTA yn cyflwyno model o 'brocol' sydd wedi ei seilio ar ymarfer lleol effeithiol. Ar lefel leol, dylai gwasanaethau cyffuriau a diodydd meddwol gael eu cynrychioli ar Fyrddau Lleol Amddiffyn Plant.

GALLUOGI ADSEFYDLU MEWN CYMUNED

Nid mater o fynd i'r afael â symptomau ac achosion dibyniaeth yn unig yw adferiad, ond yn hytrach am alluogi pobl i adsefydlu yn llwyddiannus yn eu cymunedau. Mae hefyd am sicrhau bod ganddynt rywle i fyw, rywbeth i'w wneud a'r gallu i ffurfio perthnasau cadarnhaol.

MYND I'R RAFAEL AG ANGHENION TAI

Dengys tystiolaeth bod tai, ynghyd â'r gefnogaeth addas, yn gallu cyfrannu at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr cyffuriau mewn sawl ardal, megis gwell cyfleodd cyflogaeth, a chadw at eu triniaethau, gwella iechyd a lles, gwella canlyniadau ym myd gwaith a lleihau ail-droseddu.

Mae defnydd uchel o gyffuriau ymhlith y digartref; er enghraifft mae 38% o bobl sydd yn cysgu ar y stryd yn Llundain angen cefnogaeth gyda'u defnydd o gyffuriau⁴⁷. Mae pobl sydd yn dioddef o ddibyniaeth ar gyffuriau neu ddiodydd meddwol yn fwy tebygol o ddisgyn i gylch digartrefedd neu o fyw mewn llety o ansawdd isel. At hyn, mae pobl sydd yn ddigartref yn fwy tebyg o fod angen help i gael mynediad i ac i gynnal triniaeth arbenigol ar gyfer cyffuriau ac yna help i fyw yn annibynnol.

Er mwyn goresgyn y rhwystrau hyn rhaid creu cysylltiadau rhwng yr asiantaethau cyfiawnder

46 Lexmond, J. and Reeves, R. (2009) Building Character. Demos

47 Combined Homelessness and Information Network 2009/10.

troseddol, gwasanaethau triniaeth a darparwyr tai o'r sectorau cymdeithasol, gwirfoddol a phreifat . Gall methu darparu tai i'r rhai hynny sydd yn ddibynol ar gyffuriau a diodydd meddwol gael ystod o ganlyniadau negyddol yn y cymunedau lleol, gan gynnwys cynnydd yn y troseddau sydd ynghlwm â chyffuriau, arwyddion gweledol o ddefnyddio cyffuriau, yfed a chardota. Mae felly yn hanfodol bwysig bod cymunedau yn cydnabod pwysigrwydd darparu llety ar gyfer y bobl hyn.

Ceir nifer o enghreifftiau blaengar o ddulliau i atal digartrefedd ymhlith awdurdodau a grwpiau gwirfoddol a chymunedol, elusennau a mentrau cymdeithasol. Rydym eisieu parhau i weithio gyda'r sector ar ddigartrefedd a darparwyr lleol eraill i hwyluso gweithio'n well ar y cyd gyda sefydliadau sydd yn trin cyffuriau a hybu arferion da. Rydym yn adeiladu ar y gwaith da hyn trwy ddarparu £400 miliwn dros gyfnod yr Adolygiad ar Wariant i roi cefnogaeth pellach i waith fydd yn atal ac yn mynd i'r afael â digartrefedd.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi cynllun gwobrwyo blaengar yn y sector gwirfoddol i wella'r help sydd ar gael i bobl sengl digartref gael cyfle i rentu o'r sector preifat, gan obeithio helpu eu hadferiad. Bydd y Rhaglen Cefnogi Pobl, sydd yn cynnig gwasanaethau cefnogi cartrefi i bobl fregus, yn cael buddsoddiad o £6.5 biliwn dros y 4 blynedd nesaf.

Yn ogystal â hyn, bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol, yr awdurdodau lleol a'r cymunedau i edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu proses Talu Fesul Canlyniadau er mwyn datblygu atebolrwydd lleol a thryloywder ar gyfer gwasanaethau ynghlwm â thai, i bobl sydd yn ddibynol ar gyffuriau a/ neu ddiodydd meddwol.

HELFU POBL DDOD O HYD I GYFLOGAETH PARHAOL

Mae dibyniaeth ar gyffuriau a diodydd meddwol yn un o achosion allweddol tloti a diffyg gwaith rhwng cenedlaethau. Er enghraifft, amcangyfrifir bod 80% o ddefnyddwyr heroin a crac cocên yn Lloegr ar fudd-daliadau, a hynny am flynyddoedd lawer yn aml, ac mae eu defnydd o gyffuriau yn rhwystr arwyddocaol i gyflogaeth⁴⁸. Amcangyfrifir bod tua 160,000 o bobl sydd yn ddibynol ar ddiodydd meddwol ar fudd-daliadau, hyn hefyd yn yn rhwystr arwyddocaol i gyflogaeth⁴⁹.

Mae'n rhaid i hyn newid. Ein bwriad yw cynyddu'r nifer o bobl sydd yn ddibynol ar gyffuriau a diodydd meddwol ac sydd yn hawlio budd-daliadau i chwilio am wasanaethau triniaeth ac adsefydlu ac, yn y pen draw, i ddod o hyd i gyflogaeth. Mae hyn yn gyfraniad allweddol i adferiad parhaol. Er nad yw hi'n bosibl creu nifer helaeth o swyddi yn benodol ar gyfer pobl sydd yn adfer eu hiechyd, rhaid i ni eu paratoi drwy roi'r sgiliau iddynt i gystadlu am y swyddi hynny sydd ar gael.

Y cam cyntaf yw sicrhau bod y system fudd-daliadau yn cydweithio gyda'r gwasanaethau adferiad. Byddwn yn cynnig i hawlwr budd-daliadau sydd yn ddibynol ar gyffuriau neu ddiodydd meddwol y dewis rhwng gorfodaeth gref o'r amodau a'r sancsiynau arferol lle nad ydynt yn rhan o strwythur gweithgareddau adfer, neu amodoldeb wedi ei deilwra'n addas i'r rhai hynny sydd yn rhan o'r strwythur. Dros y tymor hirach byddwn yn trafod y posibiladau o gynnig cymhellion yn y system gredydau i annog a gwobrwyo'r rhai sydd yn dewis cael triniaeth.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na fydd y rhai hynny nad ydynt yn cael eu trin yn cael eu hesgusodi o sancsiynau oherwydd eu bod yn ddibynol, ond yn hytrach bydd disgwyl iddynt gydymffurfio â holl amodau'r cynllun budd-daliadau neu wynebu'r canlyniadau. Rhoddir cefnogaeth i bobl sydd yn cymryd

48 Hay, G. and Bauld, L. (2008) Population estimates of problematic drug users in England who access DWP benefits: a feasibility study. DWP Working Paper No. 46. Department for Work and Pensions; and Bauld, L. Hay, G., McKell, J. and Carroll, C. (2010) Problem drug users' experiences of employment and the benefit system. DWP Research Report No. 640, Department for Work and Pensions.

49 Hay, G. and Bauld, L. (forthcoming in 2010?) Population estimates of alcohol misusers who access DWP benefits. DWP Working Paper No. 94. Department for Work and Pensions

camau i fynd i'r afael â'u dibyniaeth, a bydd yr amodau a osodir arnynt yn addas i'w hamgylchiadau personol; a byddwn yn rhoi'r amser a'r gofod sydd eu hangen arnynt er mwyn ffocysu ar eu hadferiad.

Byddwn hefyd yn edrych ar addasu deddfwriaeth fel ei bod yn glir pan fo rhywun yn mynychu cyrsiau adsefydlu preswyl ac a fyddai'n addas i dderbyn budd-daliadau diweithdra; byddwn yn ystyried bod ganddynt lai o gyfle i chwilio am gyflogaeth ac felly bydd ganddynt hawl awtomatig i gael Cefnogaeth Lwfans Cyflogaeth.

Rhaid integreiddio rhaglenni cyflogaeth gyda thriniaeth a ffocysu ar adeiladu sgiliau a hunan barch. Mae hyfforddiant, gwirfoddoli a threialon gwaith yn gamau allweddol ar y ffordd i gyflogaeth. Mae cynlluniau prentisiaeth i oedolion, hunan-gyflogaeth a mentrau cymdeithasol yn llwybrau eraill i fyd cyflogaeth y mae angen i ni eu hannog.

Rhaid i'r sector cyhoeddus chwarae ei ran mewn dwy ffordd – trwy recriwtio uniongyrchol a thrwy gytundeb caffael. Yn ôl ymchwil gan Gomisiwn Polisi Cyffuriau y DU, mae rhai cyflogwyr yn honni bod pobl sydd yn gwella o'u dibyniaeth ymhlith y gorau a'r mwyaf dibynadwy yn eu gweithlu⁵⁰. Gan weithio gyda phartneriaid a chyflogwyr, byddwn yn hybu astudiaethau achos cadarnhaol ac yn darparu arweiniad ar weithio gyda'r grŵp hwn (er enghraifft mewn perthynas â rhagnodi deunydd amgen ar gyfer dibynnu ar gyffuriau a chyflogaeth). Byddwn hefyd yn chwilio am ddewisiadau i helpu hawlwr budd-daliadau i oresgyn y problemau sydd yn codi oherwydd bod ganddynt gofnod troseddau.

PROFI MENTRAU LLE CEIR ARIAN YN SGIL LLWYDDIANT

Creu system wedi ei ffocysu ar adferiad mewn cymunedau sydd wrth galon y strategaeth hon ac mae'n arwydd o gryn newid yn y darpariaeth leol ar gyfer ymyriadau cyffuriau. Rydym yn awyddus i archwilio sut y gallwn wobrwyo system yn ôl canlyniadau. Felly byddwn yn cyflwyno chwe chynllun peilot er mwyn darganfod sut y gall PBR – Talu yn ôl Canlyniadau – weithio gydag oedolion sydd yn ceisio adfer eu hiechyd o effeithiau cyffuriau; bydd hyn yn rhoi tystiolaeth i ni ar ba mor fforddiadwy yw'r system ac am werth yr arian fel rhan o'r gwerthusiad o'r cynlluniau peilot hyn. Byddwn yn cydweithio gyda'r ardaloedd peilot er mwyn cyd-gynllunio ein hagwedd. Bwriadwn wahodd partneriaethau lleol i dendro i gael bod yn rhan o'r cynlluniau peilot ar unwaith, a byddwn yn cyd-gynllunio gydag ardaloedd peilot yn gynnar yn 2011. Rydym yn archwilio sut y gellir ymestyn PBR i driniaethau arbenigol ar ddioddydd meddwol ac yn ystyried sut y gall y ddau math hyn o arbrawf weithio gyda'i gilydd.

Wrth wraidd yr agwedd hon at y gwaith bydd lleihad mewn biwrocratiaeth, gan osgoi ailadrodd asesiadau diangen a cheisio gwella dilyniant mewn cefnogaeth. Caiff pob maes eu hannog i greu system unigol o asesu a chyfeirio. Byddai'r system unigol, unedig hon yn ailgyfeirio y cyllid sydd ar gael oddi wrth y prosesu biwrocraidd ac at y gefnogaeth sydd ei angen ar unigolion sydd eisiau gwella. Bydd yr agwedd hon, sydd yn rhan orfodol o'r cynlluniau peilot, yn sicrhau bod partneriaid lleol yn darparu gwasanaethau mwy cost effeithiol gan sicrhau gwell effeithlonrwydd.

Bydd y gwaith o gyflawni PBR ar gyfer adferiad cyffuriau yn cynnig gwersi fydd yn helpu gosod cyfeiriad holl gomisiynau gwasanaethau cyffuriau yn y dyfodol dan PHE, gan gynnwys asesu tystiolaeth gwerth am arian y cynlluniau peilot. Tra bod rhai elfennau o'r agwedd yn berthnasol i'r cynlluniau peilot yn benodol, rydym yn credu bydd yr egwyddorion sylfaenol yn gweithio'n dda ochr-yn-ochr â'r cyllidebau uwch a gyfrannir ar y cyd a ddaw i'w lle o Ebrill 2011 ac a fydd yn cynnig gwell cyfleoedd i ardaloedd lleol fanteisio ar gomisiynu ar y cyd a lleihad mewn dyblygu systemau.

Bydd y grwpiau gwirfoddol a chymunedol, elusennau a mentrau cymdeithasol yn chwarae rhan allweddol wrth gryfhau cymunedau a'u gwneud yn fwy diogel. Mae cyrff o'r math hyn yn aml mewn sefyllfa unigryw i gynorthwyo'r newid hyn. Mae'r sector hefyd yn ddarparwr allweddol wrth baratoi gwasanaethau atal, cefnogaeth i deuluoedd a gwasanaethau eraill yn ôl y modelau newydd a'r systemau newydd o ddarparu. Bydd y Gronfa Drosiannol o £100 miliwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar

50 UK Drug Policy Commission (2008) Working Towards Recovery: Getting problem drug users into jobs. London: DUKDPC

gan y Llywodraeth yn helpu cefnogi'r sector ac yn meithrin galluoedd. At hyn mae gan y sector swyddogaeth allweddol i'w chwarae wrth hybu gweithredu cymdeithasol ac annog a galluogi pobl i fod yn fwy actif yn y gymdeithas. Yng nghyd-destun y strategaeth hon, gallai hyn gynnwys helpu unigolion sydd yn gwella i gymryd swyddi gwirfoddol wedi eu strwythuro er mwyn adeiladu ar eu sgiliau a'u haddasrwydd i waith.

Y CAMAU NESAF

Y camau nesaf yn y strategaeth hon fydd:

- **I weithio gydag ardaloedd lleol a phartneriaid allweddol a darganfod beth fydd y strategaeth hon yn golygu iddynt;**
- **I alluogi ardaloedd lleol a phartneriaid allweddol i weithio ar eu cynlluniau ar gyfer darparu a chyflenwi'r ataliad, yr ymyriad, gorfodaeth a gweithredu'r agweddau ar adferiad a osodwyd yn y strategaeth;**
- **I annog ardaloedd lleol i weithio ar y cyd wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau; ac**
- **I barhau i ddatblygu a chyhoeddi'r dystiolaeth o'r hyn sydd yn gweithio.**

Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio tystiolaeth i yrru'r canlyniadau gorau i unigolion ac i gymunedau. Ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth yn datblygu fframwaith werthuso i asesu effeithlonrwydd a gwerth am arian y Strategaeth Gyffuriau. Ble mae'r dystiolaeth werthuso yn ymddangos yn rhy gynnil neu'n rhy wan i gynnig asesiad boddhaol o'r gwerth am arian, byddwn yn ymchwilio i ba raddau y medrwn lenwi'r bylchu yn y dystiolaeth ac yn ceisio gwella safon y gwerthuso.

Rydym wedi ymrwymo hefyd i adolygu'r strategaeth yn flynyddol er mwyn adeiladu ar fentrau pellach a gweithredu ar ran rhaglen ddiwygio y Llywodraeth. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni hefyd ymateb i dystiolaeth newydd, i ymateb yn hyblyg i natur marchnad gyffuriau sydd yn newid ac i'r canlyniadau a gyflawnir.

Trwy leihau'r galw, atal cyflenwadau a chefnogi unigolion i wella, byddwn yn galluogi unigolion a'u teuluoedd i fyw bywydau llawn; bydd ardaloedd lleol yn fwy diogel i fyw ynddynt ac i fagu ein teuluoedd ynddynt a bydd buddsoddiad cyhoeddus yn darparu gwell gwerth am yr arian.

Title: Strategaeth Gyffuriau 2010 Lleihau'r Galw, Cyfyngu Cyflenwadau,
Annog Adferiad Cefnogi Pobl I Fyw Bywyd Yn Rhydd O Gyffuriau

ISBN Number: 978-1-84987-391-8

HO_01729_G